# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

## PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

Dyddiad ac Amser

**2.30 y.h., DYDD IAU, 4YDD CHWEFROR, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 27/01/16)

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Dyfrig Jones | Gweno Glyn |
| Michael Sol Owen | Gethin Glyn Williams | John Wyn Williams |
| R. H. Wyn Williams | Aled Wyn Jones | [*sedd wag*] |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Trevor Edwards |
| W. Roy Owen | Eirwyn Williams |
| Hefin Underwood | |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Jason Humphreys    Anwen J. Davies

## Llafur (1)

Y Cynghorydd    Gwynfor Edwards

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd    June Marshall

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Dyfed Edwards – Arweinydd y Cyngor (eitem 5)
Y Cynghorydd Ioan Thomas – Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb (eitem 6)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (eitem 7)

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**.**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 1 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. BIL DRAFFT LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)** 6 - 10

Ystyried adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

*2.30pm – 3.30pm.*

**6. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL GWYNEDD 2016-20** 11 - 37

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet – Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb (ynghlwm).

*3.30pm – 4.00pm*

**7. STRATEGAETH TG** 38 - 73

Derbyn cyflwyniad ar y Strategaeth TG (strategaeth ddrafft ynghlwm).

*4.00pm – 4.30pm*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL DYDD IAU, 3 RHAGFYR 2015

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Jason Humphreys (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Anwen Davies, Lesley Day, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Gweno Glyn, June Marshall, W.Roy Owen, Eirwyn Williams, Gethin Glyn Williams, John Wyn Williams ac R.H.Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**
Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi)
Arwel Evans (Rheolwr Caffael Corfforaethol)
Geraint George (Arweinydd Rhaglenni Arbennig)
Meilys Heulfryn Smith (Uwch Reolwr Busnes)
Colin Morris (Rheolwr Cefnogi Busnes)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod**
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)
Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)
Steve Barnard (Rheolwr Datblygu'r Sefydliad)
Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu)
Catrin Love (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant)
Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Simon Glyn a Michael Sol Owen.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Mehefin, 2015 fel rhai cywir.

Nododd y Cynghorydd Lesley Day iddi ymddiheuro o'r cyfarfod oherwydd buddiant, ond nad oedd y rheswm hwnnw wedi'i gofnodi. Eglurwyd nad oedd yn arferol i nodi'r rhesymau dros absenoldebau yn y cofnod a bod modd i aelodau gynnwys gwybodaeth o'r fath yn eu hadroddiadau blynyddol.

## 3. STRATEGAETH GAFFAEL CYNGOR GWYNEDD – RHEOLAETH CATEGORI A CHADW'R BUDD YN LLEOL

**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies**

Cyflwynodd bawb eu hunain, ac ar gais y Cadeirydd, rhoddodd y Rheolwr Caffael Corfforaethol esboniad byr o ystyr y term rheolaeth categori a sut mae'n gweithio'n ymarferol.

Gosododd yr Aelod Cabinet Economi'r cyd-destun gan bwysleisio pwysigrwydd cario'r momentwm a sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r trefniadau newydd.

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Caffael Corfforaethol yn diweddaru'r pwyllgor ar gynnydd y Strategaeth Gaffael newydd drwy ymateb i gwestiynau'r Cyfarfod Paratoi mewn perthynas â:-

- Chyrhaeddiad o ran mewnosod Rheolaeth Categori ym maes Gofal ynghyd â chynnydd yn erbyn y rhaglen waith a'r amserlen.
- Y gwersi a ddysgwyd o osod y Rheolaeth Categori ym maes Gofal, sy'n bwysig i'w cadw mewn cof ar gyfer y ddau faes Rheolaeth Categori arall.
- Y rhaglen waith ar gyfer mewnosod Rheolaeth Categori yn y ddau faes arall.
- Sut mae'r drefn yn y maes Gofal yn annog gweithredu yn wahanol i'r hen drefn a beth sydd wedi gwella o ran y drefn newydd.
- Parodrwydd y Rheolwyr i brynu i mewn i'r drefn Rheolaeth Categori ym maes gofal ac ar draws y Cyngor ac unrhyw anawsterau a ganfuwyd.
- Effaith y trefniadau ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cyngor.
- Y bwriadau o ran sicrhau cyfleoedd i ddarparwyr lleol ym maes Gofal ac ar draws y Cyngor.
- Y gwaith cefndir a gyflawnwyd o ran adnabod anghenion ac adnabod y farchnad ym maes Gofal ac ar draws y Cyngor.
- Y diweddaraf am y perfformiad ar wariant gyda chwmnïau 'lleol' yng Ngwynedd ac ar lefel Gogledd Cymru a Chymru.
- Y camau a gymerwyd i hybu cysylltu â chwmnïau lleol a gwerthu'n lleol.
- Dulliau o sicrhau buddion ehangach i'r sir drwy'r cymalau cymdeithasol.
- Canran yr anfonebau sy'n cael eu talu o fewn 30 diwrnod.
- Rôl yr Adran Economi a Chymuned o ran y Prosiect Cadw'r Budd yn Lleol a beth sydd wedi'i gyflawni hyd yma.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar yr atebion ysgrifenedig yn yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau pellach gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Sut mae'r system newydd yn mynd i godi ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor o gaffael gan sicrhau fod hynny'n digwydd mewn ffordd unedig a strategol.
- Yr opsiynau o ran cynorthwyo pobl i sefydlu busnesau newydd.
- Cyfyngiadau deddfwriaeth a rheolau caffael Ewropeaidd.
- Pwysigrwydd mewnbwn yr Adran Economi a Chymuned o safbwynt cadw'r budd yn lleol a'r cyswllt gyda chontractwyr lleol.
- Yr her, wrth symud i drefn ganolog, o geisio perswadio cwmnïau bychain lleol i ymgeisio am gontractau, a hynny heb sicrwydd o unrhyw waith ar ddiwedd y broses.
- Hyblygrwydd y broses gaffael a'i gallu i newid ac addasu'n gyson er mwyn adnabod anghenion y farchnad leol.
- Yr her o adnabod a chreu cyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol.
- Yr angen i fod yn effro i effaith cyflwyno'r cyflog byw ar allu'r Cyngor i ennill contractau.
- Newidiadau mewn prosesau.
- Effaith unrhyw doriadau yn yr Adran Economi a Chymuned ar y maes caffael gan ei fod yn ddibynnol ar y gefnogaeth fusnes mae'n dderbyn gan yr adran.
- Monitro a rheoli safonau contractau.
- Y diffiniad o gwmni "lleol".
- Gosod amod iaith.
- Y trefniadau ymarferol o ran y timau fydd yn gyfrifol am bryniant yn yr holl faes.

- Dymuniad i weld esiampl o ymarfer da er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gwaith ynghyd ag adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Busnes amlinelliad o'i phrofiad hyd yma o ddefnyddio'r drefn rheolaeth categori yn y maes Gofal gan nodi ei bod yn gweld hwn fel datblygiad hynod o bositif a chynhwysol oedd yn eistedd yn gyfforddus gydag egwyddorion Ffordd Gwynedd. Eglurodd ei bod yn ddyddiau rhy gynnar i rannu profiadau categorïau cyfan gyda'r aelodau, ond cyfeiriodd at enghreifftiau o ddefnyddio'r drefn newydd yn y meysydd anabledd dysgu a gofal cartref ble llwyddwyd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy edrych drwy berspectif y darparwyr a gweithio gyda'r darparwyr i geisio llunio'r gwasanaeth i'r dyfodol. Cyfeiriodd hefyd at sefyllfaoedd anodd heddiw na fyddai wedi bodoli petai rheolaeth categori wedi bod mewn grym ar y pryd.

Ymatebodd yr Uwch Reolwr Busnes i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Y pwyslais ar anghenion yr unigolyn yn hytrach na phris y gwaith yn unig.
- Y dull o fonitro pecynnau gofal cartref.

Crynhodd y Cadeirydd brif negeseuon y drafodaeth fel a ganlyn:-

- Lledaenu'r neges ar draws y Cyngor, fel bod pawb yn gwybod ac yn deall yn glir beth yw'r drefn newydd.
- Nid oes tystiolaeth hyd yma os yw trefniadau rheolaeth categori yn gweithio yn well na'r drefn flaenorol. Dylid monitro cynnydd ar y strategaeth gaffael drwy'r pwyllgor hwn ymhen 6 mis, ac yn rheolaidd wedi hynny.
- Nodi pryder ynglŷn ag effaith unrhyw doriadau posib' ar allu adrannau, yn arbennig yr Adran Economi a Chymuned, i yrru'r elfen leol ac effaith hynny ar ffyniant economaidd y sir yn fwy cyffredinol.
- Gwreiddio'r strategaeth yn Ffordd Gwynedd, drwy wrando'n gyson ar y negeseuon sy'n dod yn ôl gan y sector leol ac addasu'r strategaeth yn unol â hynny.
- Bod angen i'r Adran Economi a Chymuned fod yn fwy rhagweithiol i hybu a chreu cyfleoedd i fusnesau lleol, mentrau cymdeithasol, ayyb, i ddatblygu busnesau trwy adnabod y bylchau sydd yn y farchnad, gan gynnwys annog unigolion i sefydlu busnesau o'r newydd.

Nododd yr Uwch Reolwr Busnes ymhellach y bwriadai grŵp budd-ddeiliaid edrych ar faes gofal dydd pobl hŷn gan ddilyn y fethodoleg rheolaeth categori drwodd o'r dechrau i'r diwedd a bod croeso i aelodau o'r pwyllgor hwn fod yn rhan o'r gwaith er mwyn gweld sut mae'r fethodoleg yn gweithio yn ymarferol.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am eu holl waith ac am y drafodaeth.

## 4. CYNNAL A CHEFNOGI'R GWEITHLU

**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Cyflwynodd bawb eu hunain.

Gosododd yr Aelod Cabinet Adnoddau'r cyd-destun ac ychwanegodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol fod y Cyngor yn cymryd ei ddyletswydd o ofal ar unrhyw adeg o ddifri' ac yn gwneud popeth i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael ymysg y gweithlu.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn manylu ar y ddarpariaeth ar gyfer cynnal a chefnogi staff mewn cyfnod o dorri ar wasanaethau a newid mawr yn y ffordd

mae'r gwasanaethau yn cael eu cyflawni drwy ymateb i gwestiynau'r Cyfarfod Paratoi mewn perthynas ag:-

- Asesiad gorau'r Cyngor ar hyn o bryd o nifer y staff all gael eu heffeithio gan y toriadau a'r arbedion effeithlonrwydd.
- Strategaeth y Cyngor ar gyfer paratoi'r gweithlu ar gyfer y toriadau a'u cefnogi yn ystod y broses ynghyd â'r trefniadau o ran symud staff o fewn y Cyngor a dod o hyd i gyfleoedd eraill o fewn y Cyngor.
- Cefnogaeth emosiynol i staff sy'n wynebu colli eu swyddi.
- Trefniadau gydag asiantaethau eraill ar gyfer adnabod sgiliau staff ac adleoli staff gydag asiantaethau eraill.
- Unrhyw waith sy'n mynd rhagddo, neu gynlluniau ar y gweill, i gefnogi staff cyfredol i fod yn sefydlu eu busnesau eu hunain er mwyn ateb y gofynion am ddarpariaeth newydd / gwahanol.
- Unrhyw asesiad a gynhaliwyd ynghylch straen ar y staff sy'n weddill, a chasgliadau hynny.
- Unrhyw gamau a gymerwyd ar gyfer dechrau paratoi i gefnogi staff ar gyfer yr ad-drefnu nesaf.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar yr atebion ysgrifenedig yn yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau pellach gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Phryder y gallai swyddi ddiflannu cyn i gyfleoedd eraill godi.
- Yr angen i ragweld cyfleoedd tymor hwy a chyfleoedd i ail-hyfforddi.
- Y ffaith nad yw'r sefyllfa am wella ac mai'r gwasanaethau lleol sy'n cael eu taro bob tro.
- Bod y Cyngor yn cymryd y gwaith o gefnogi a chynnal o ddifri' a'i fod eisoes wedi cynorthwyo unigolion i barhau mewn cyflogaeth.
- Yr angen i gefnogi'r staff fydd ar ôl yn wyneb y pwysau cynyddol fydd arnynt a'r ffaith y gall fod yn anodd i'r staff hynny gael yr amser i fynychu sesiynau hyfforddi.
- Pwysigrwydd y cyswllt gyda'r Adran Economi a Chymuned o safbwynt cynghori pobl sy'n gadael gwasanaeth y Cyngor ac yn awyddus i sefydlu eu busnes eu hunain, ac ati.
- Y deialog ymlaen llaw cyn ystyried unrhyw ddiswyddiadau.
- Anhawster adleoli staff mewn rhai achosion oherwydd natur wledig y sir.
- Parhad y drefn apêl a'r niferoedd achosion tebygol.

Yn ei sylwadau cloi, nododd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol fod darpariaeth y Cyngor yn y maes hybu iechyd a lles ei staff wedi ei gydnabod ar lefel genedlaethol. Dyfarnwyd y Cyngor fel sefydliad lefel aur o ran y safon iechyd corfforaethol ac yn Ebrill y llynedd, gwahoddwyd y Cyngor i roi cyflwyniad ar ei waith yn y maes mewn cynhadledd genedlaethol yn Llundain.

Crynhodd y Cadeirydd brif negeseuon y drafodaeth fel a ganlyn:-

- Derbyn yr adroddiad a diolch am y gefnogaeth sy'n cael ei chynnig.
- Monitro'r sefyllfa wrth i effaith y toriadau amlygu eu hunain dros y misoedd nesaf.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am eu holl waith ac am y drafodaeth.

Ar ddiwedd y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd o symud cyfarfod paratoi 6 Ionawr o'r prynhawn i'r bore er mwyn hwyluso cynnal cyfarfod o'r Ymchwiliad Craffu Tai Gwyliau a Threthi yn y prynhawn, gan hefyd symud cyfarfodydd 4 Chwefror ac 14 Mawrth o'r pwyllgor hwn i'r prynhawn, os yn bosib'.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.05 y.h.

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD** | **4 CHWEFROR, 2016** |
| **PWNC** | **BIL DRAFFT LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)** |
| **PWRPAS** | **Craffu ymlaen llaw ymateb tebygol y Cyngor ’r Bil Llywodraeth Leol drafft** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards ac Arwel E Jones – Uwch Reolwr (Democratiaeth a Chyflawni)** |

Mae’r Llywodraeth wedi cyhoeddi bil drafft a phapur ymgynghorol ar ddiwygio Llywodraeth Leol. Mae’r holl ddogfennau i’w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru trwy ddilyn y ddolen hon:-

http://gov.wales/consultations/localgovernment/draft-local-government-(wales)-bill-consultation/?skip=1&lang=cy

Gwahoddwyd sylwadau gan aelodau ac uwch swyddogion ar y bil, sydd yn un eang iawn. Mae’r isod yn ymdrech gyntaf ar sylwadau ar ran y Cyngor mewn ymateb i’r Bil Llywodraeth Leol drafft.

Mae elfennau ohono wedi ei drafod gan y Pwyllgor Safonau. Gwahoddir arweiniad pellach gan y Pwyllgor Craffu gan nodi y bydd elfennau ohono yn cael sylw pellach, mae’n debyg yn y Pwyllgor Archwilio cyn i’r sylwadau gael eu cymeradwyo’n ffurfiol yn y Cabinet 16 Chwefror.

Y prif sylw cyffredinol i’w wneud yma yw bod pryder sylweddol am raddfa’r micro-reoli gan Lywodraeth Cymru sydd ynghlwm â nifer o’r cynigion. Yn gyffredinol, mae hyn yn gam negyddol sydd yn milwrio yn erbyn atebolrwydd cynghorau eu hunain i’w cymunedau lleol.

| **Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir** |
|---|
| **(A) Cynigion**<br>1. Mae’r Bil yn cynnig symudiad i 8 neu 9 o gynghorau yng Nghymru gyda dau ddewis ar gyfer Gogledd Cymru. Mae’r dewis cyntaf yn golygu dau gyngor (Gwynedd / Mon / Conwy a Dinbych / Fflint / Wrecsam). Mae’r ail ddewis yn cynnig tri chyngor (Gwynedd / Mon, Conwy / Dinbych ac yn olaf Fflint / Wrecsam).<br>Y bwriad yw y bydd etholiadau cyntaf i’r cynghorau newydd ym Mai 2019 gan weithredu fel awdurdod cysgodol tan Ebrill 2020.<br>2. Mae cynigion hefyd am y canlynol:-<br>a) Diddymu’r hen siroedd cadwedig (i bwrpas rhaglawiaeth ayb)<br>b) Caniatau i gynghorau unigol benderfynu ar eu henwau<br>c) Cynigion am drefniadau cyllido a chyfrifo |
| **(B) Sylwadau**<br>**P**rif gyfrifoldeb y Cyngor yw gwarchod buddiannau trigolion Gwynedd a’r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Felly, nid yw’r Cyngor am gau’r ar unrhyw bosibilrwydd allai arwain at arbedion mewn costau reolaethol, canolog neu swyddfa gefn a fyddai, yn ei dro, yn medru lleihau maint y toriadau y bydd yn rhaid eu gwneud dros y blynyddoedd nesaf.<br>Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn nodi nifer o ystyriaethau o bwys y byddai yn ceisio sicrwydd |

amdanynt a rhai cwestiynau y byddai angen ateb iddynt cyn symud i uno, sef:-

a) Mae sicrhau democratiaeth atebol lleol yn allweddol wrth symud ymlaen ac mae'n rhaid i unrhyw drefniadau llywodraethu ar gyfer y dyfodol gynnwys trefn i sicrhau deialog ar wasanaethau cyhoeddus ar lefel mwy lleol na lefelau'r cynghorau presennol Mae risg o bellhau atebolrwydd o gymunedau yn sgil canoli mewn cynghorau mwy a rhaid gwarchod rhag hynny er mwyn gwella trefniadau atebolrwydd ac ymgysylltu cynghorau ac aelodau lleol unigol gyda thrigolion a chymunedau.

b) Mae'n rhaid i'r patrwm o wasanaethau cyhoeddus i'r dyfodol gynnwys rôl ystyrlon i gynghorau tref a chymuned o ran bod yn gyfrifol am a darparu rhai gwasanaethau.

c) O ran atebolrwydd aelodau lleol, dylid gofyn am sicrwydd na fydd cynigion y Comisiwn Ffiniau yn creu wardiau rhyw fawr a fydd yn gwneud gwaith aelodau lleol o ymgysylltu'n effeithiol gyda'u cymunedau yn anos. Yn benodol, pwysir am sicrwydd na cheir mwy o wardiau aml-aelod, gan fod darpariaeth felly yn medru drysu atebolrwydd aelodau unigol o fewn eu hetholaethau

ch) Mae gweithredu Polisi Iaith sydd yn gadarn o blaid y Gymraeg yn allweddol ar gyfer unrhyw gyngor newydd y byddai Gwynedd yn ran ohono i'r dyfodol, yn cynnwys amcanion presennol Cynllun Iaith y Cyngor, sef:-

- galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd, i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol
- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor gan fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru
- hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor.
- sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor gan ddarparu cyfleusterau hyfforddiant mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

d) Mae angen sicrwydd am sefyllfa ariannol ac asedau pob partner posib er mwyn gweld pa fath o sefyllfa ariannol y byddai unrhyw gyngor newydd yn ei etifeddu

O ystyried yr uchod, mae'r Cyngor o'r farn mai'r canlyniad gorau yw 3 chyngor ar gyfer Gogledd Cymru yw'r ateb gorau er nad yw'n gwrthwynebu'r syniad o ddau gyngor.

| **Rhan 2: Cymhwysedd Cyffredinol** |
| --- |
| **(A) Cynigion**<br>1. Cyflwynir pwer i gynghorau wneud “unrhyw beth y caiff unigolyn yn gyffredinol ei wneud” (gyda rhai eithriadau) yn wahanol i’r drefn bresennol orfod cael deddfwriaethol benodol ar gyfer unrhyw weithredu.<br>2. Y bwriad yw y bydd y pwer hyn hefyd yn berthnasol i gynghorau cymuned ar rhai amodau |
| **(B) Sylwadau**<br>1. Mae’r Cyngor yn cytuno gyda’r pwyslais o blaid sefydlu ‘grym cymhwysedd cyffredinol’ i gynghorau, a fyddai’n ein galluogi i wneud mwy o bethau er budd gorau eu cymunedau. Yr unig bryder fyddai a yw’r darpariaethau cyfreithiol o’i gwmpas yn ei wneud yn drafferthus i’w weithredu<br>2. Mae’r Cyngor wedi bod yn bryderus am ddeddfwriaeth allai roi pwysau ar gynghorau cymuned yn enwedig y rhai llai ond mae’r cynigion presennol fel pe’n caniatáu mwy o ryddid i gynghorau gyda mwy o gapasiti heb osod pwysau ychwanegol ar gynghorau llai |

| **Rhan 3: Mynediad i Lywodraeth Leol** |
| --- |
| **(A) Cynigion**<br>1. Mae bwriad i’w wneud yn ofynnol i gynghorau lunio strategaethau ar gyfer sicrhau cyfranogaeth trigolion yn y broses ddemocrataidd<br>2. Mae bwriad i wneud sefydlu “pwyllgorau ardal cymunedol” yn orfodol ar bob Cyngor<br>3. Mae bwriad i wneud cynnal trafodaethau gyda chyrff eraill i wella canlyniadau mewn ymateb i “gais gwella” yn orfodol.<br>4. Bwriedir gwneud gwe-ddarlledu cyfarfodydd sydd yn agored i’r cyhoedd yn orfodol |
| **(B) Sylwadau**<br>1. Mae’r Cyngor yn gwrthwynebu gofynion i lunio dogfennau gan nad yw cynhyrchu dogfennau fel y cyfryw o fudd i drigolion. Tybed a ddylai’r graddau y mae cynghorau yn ymgysylltu â’r trigolion fod yn destun her annibynnol gan ein archwilwyr neu yn destun sylw penodol yn yr adolygiad cymheiriaid arfaethedig yn hytrach nag yn destun dogfen strategol?<br>2. Nid yw’r “pwyllgorau ardal cymunedol” yn edrych yn eithriadol o wahanol i’r hen syniad o fforymau bro y bu’r Cyngor yn ei drafod yn y gorffennol. Mae’r Cyngor yn herio os yw’r gofynion trefniadaethol a’r gofyn o ran datganiad o flaenoriaethau yn ychwanegu gwerth go iawn i drigolion. Wedi dweud hynny, mae’r awgrym o ddirprwyo swyddogaethau i’r pwyllgorau hynny yn eu gwneud yn fwy deniadol ac efallai y bydd y math hwn o fforwm yn fwy pwysig gyda maint y prif gynghorau yn cynyddu. Byddai angen bod yn eglur hefyd am y berthynas rhwng y pwyllgorau hyn a’r haen o gynghorau cymuned.<br>3. Mae’n ymddangos bod y cysyniad o “gais gwella” yn ymdrech i gael deialog gyda chyrff a grwpiau o gwmpas gwella canlyniadau. Mae’r cysyniad yn ddeniadol ond mae ei osod mewn trefn sy’n cael ei reoli gan statud yn sicr o greu gwaith di-angen.<br>4. Mae’r Cyngor wedi arbrofi’n rhannol lwyddiannus gyda gwe-ddarlledu ac mae modd ei weld fel rhan o wead y patrwm o wasanaethau democrataidd i drigolion. Unig gonsyrn y Cyngor gyda’r gofyn hwn fyddai y gallai arwain at ganoli lle y cynhelir cyfarfodydd ac y byddai costau arwyddocaol ynghlwm â’i weithredu. |

| Rhan 4: Swyddogaethau Cynghorau |
|---|
| **(A) Cynigion**<br>1. Mae’r cynigion yn gosod disgwyliadau clir ar aelodau i fod yn ateb gohebiaeth, mynychu cyfarfodydd a hyfforddiant, cynnal cymorthfeydd a hefyd lunio adroddiadau blynyddol gyda’r posibilrwydd o gyfeirio aelod at y Pwyllgor Safonau os nad yw’n gwneud hynny’n ddigonol.<br>2. Er nad oes cymal yn y bil, bwriedir rhoi’r hawl i Weinidogion gyfarwyddo’r Panel Annibynnol sydd yn pennu Cyflogau a Threuliau Aelodau<br>3. Nid yw’r Bil yn cynnig dim penodol ond disgwylir i Weinidogion gyfarwyddo ymestyn trefniadau i ganiatáu i aelodau fynychu cyfarfodydd o bell<br>4. Mae awgrym yn y ddogfen ymgynghorol o gyflwyno trefn i alluogi Cyngor (trwy bleidlais Cyngor llawn) i ddiswyddo Prif Weithredwr, Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd fel sydd yn Lloegr ar hyn o bryd<br>5. Mae’r bil yn cyflwyno trefniadau i roi rhybudd cynt i gyrff cymunedol o asedau y mae cynghorau am eu gwaredu |
| **(B) Sylwadau**<br>1. Mae’r Cyngor hwn wedi gwrthwynebu cynigion sydd yn ceisio dweud wrth aelodau etholedig sut y dylent ymddwyn. Fodd bynnag, mae peth anniddigrwydd wedi bod yn ddiweddar am lefelau presenoldeb isel ac mae’r Cyngor o blaid gorfodi cyhoeddi adroddiadau blynyddol. Mae’n debyg bod lle i ffurfioli rhyw gymaint ar y disgwyliad sydd ar aelodau etholedig ond mae peryg i elfennau ohono fod yn anhyblyg ac yn anodd i’w wireddu<br>2. Mae’r Cyngor eisoes wedi mynegi pryder am y peryg o ddylanwad amhriodol gan weinidogion ar waith y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol. Dylid gwarantu eu hannibyniaeth.<br>3. Mae “mynychu o bell” yn amlwg yn syniad da mewn ardal fawr a bydd yn fwy felly mewn ardal cyngor fwy ond, un waith eto, mae costau ynghlwm â chael technoleg digon cadarn i’w alluogi<br>4. Nid yw’r Cyngor yn gweld unrhyw reswm i newid o drefniadau presennol ar gyfer asesu perfformiad a diswyddo’r uwch swyddogion a nodir. Mae’r drefn bresennol yn gweithio’n iawn a does dim angen ei newid i’r hyn sydd, i bob pwrpas, yn fodel o Loegr.<br>5. Mae’r Cyngor hwn wedi bod yn flaengar o ran edrych am gyfleon i drosglwyddo asedau i gyrff cymunedol hyd yma. Fodd bynnag, rhaid bod yn realistig am gapasiti rhai cyrff i fedru dygymod â throsglwyddo asedau ac elfennau o wasanaeth. Byddai’n annoeth meddwl bod hyn yn ddatrysiad eang i broblem cynnal asedau a darparu gwasanaeth heb lefel o gefnogaeth sylweddol gan y Cyngor wrth drosglwyddo |

**Rhan 5: Trefniadau Llywodraethu**

**(A) Cynigion**

1. Mae bwriad i gyflwyno dyletswydd ar gynghorau i sicrhau llywodraethu da gan gynnwys hunan-asesiadau blynyddol a chynnal adolygiad cymheiriaid un waith yn nhymor pob cyngor
2. Mae cynnig y dylai'r Pwyllgor Archwilio fod yn Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

**(B) Sylwadau**

1. Nid oes unrhyw broblem o ran y dyletswydd ar lywodraethu - Dylai hynny fod yn rhan naturiol o waith pob cyngor. Un pwynt y mae'r Cyngor wedi ei wneud yn gyson yw'r angen i leihau'r baich rheoleiddio allanol. Os yw'r drefn hunan-asesu a'r adolygiad cymheiriaid yn hwyluso hynny, byddai i'w groesawu ar yr amod nad yw'r trefniadau o gwmpas hynny yn rhy feichus a biwrocrataidd. Ar ben hynny, mae'r trefniadau sydd yn cael eu hawgrymu ar gyfer derbyn cwynion am hyn yn codi risg amlwg o drefn allai gael ei ddefnyddio i ddibenion maleisus.
2. Mae'r syniad o roi'r cyfrifoldeb llywodraethu corfforaethol yn glir yn maes llafur un pwyllgor yn un da ond mae'r Cyngor am bwysleisio y dylid gadael materion fwy manwl fel lle i drafod mater i fyny i gynghorau unigol yn hytrach na datgan hynny mewn statud

**Rhan 6: Cynghorau Cymuned**

**(A) Cynigion**

Mae cynnig yma i roi dyletswydd ar gynghorau sir i ystyried gofynion hyfforddi cynghorau cymuned yr ardal

**(B) Sylwadau**

Mae'r Cyngor, yn erbyn cymryd unrhyw feichiau ychwanegol, yn arbennig ar adeg o gynni ariannol a byddai'r awgrym hyn yn sicr yn gwneud hynny.

**Rhan 7: Materion Gweithlu**

**(A) Cynigion**

Mae'r Bil yn son am roi hawl i Weinidogion ddarparu arweiniad i gynghorau ar faterion ynglyn â'r gweithlu

**(B) Sylwadau**

Mae cynllunio'r gweithlu yn amlwg yn fater o bwys i bob cyngor wrth edrych i'r dyfodol ond mae'n anodd gweld, unwaith eto, pa werth y byddai arweiniad o du Llywodraeth Cymru yn ei ychwanegu

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu – Corfforaethol** |
| **DYDDIAD** | **4 Chwefror 2015** |
| **TEITL** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** |
| **PWRPAS** | **Lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas.** |
| **AWDUR** | **Cyng Ioan Thomas** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb** |

## 1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Craffu'r Cynllun Cydraddoldeb cyn iddo gael ei fabwysiadu, gan gynnig sylwadau ar y cynllun drafft.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

*(Deddf Cydraddoldeb 2010)*

2.2 Yr hyn mae Cyngor Gwynedd eisiau ei wneud ydi rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae cael trefniadau addas i sicrhau cydraddoldeb yn holl bwysig wrth wneud hynny. Fydd hi ddim yn bosib rhoi gwasanaeth cyson i bawb fel arall.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1 **Pam y pedwar amcan yma?**

Rydym yn credu mai'r 4 amcan yma ydi'r rhai sydd angen eu cyfarch er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wedi ei wreiddio yng ngwaith y Cyngor:

**Amcan 1: Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb**

Mae gwrando ar bobl yn bwysig er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn addas ar eu cyfer. Mae digonedd o dystiolaeth anecdotaidd i ddangos fod pobl Gwynedd yn teimlo fod hyn yn flaenoriaeth e.e. pobl yn teimlo fod penderfyniad wedi ei wneud cyn yr ymgysylltu. Rydym yn ymwybodol fod ein cyswllt gyda rhai grwpiau wedi llithro, e.e. dirywiad y Grŵp Craidd Anabledd.

**Amcan 2: Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb**

Er bod trefniadau asesu effaith wedi eu datblygu fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol rydym wedi adnabod, o edrych ar yr asesiadau sydd wedi dod i law, fod lle i wella eu cysondeb a'u datblygiad. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Pobl Hyn yn pwysleisio pwysigrwydd asesiadau o'r fath.

**Amcan 3: Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig.**

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb wedi adnabod fod angen gwaith pellach yn y maes gan nad oes llawer o welliant wedi bod mewn cynrychiolaeth wleidyddol gan unigolion â nodweddion cydraddoldeb dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Deddf Llywodraeth Leol (2012) hefyd yn rhoi dyletswydd arnom i gynyddu amrywiaeth.

**Amcan 4: Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau**

Mae'r awdit tâl diwethaf wedi dangos fod y Cyngor wedi gweithredu i sicrhau fod tâl sylfaenol yn gydradd. Yr hyn sydd angen sylw yw adnabod os oes rhwystrau yn atal unrhyw garfan rhag cael cyfleoedd i ddatblygu o fewn y gwaith.

Ar hyn o bryd dim ond 46% o staff sydd wedi datgelu gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb. Wrth dderbyn hawliau'r unigolyn i beidio â datgelu, byddai cael gwybodaeth lawnach ei gwneud yn haws i ni adnabod gwahaniaethau.

3.2 **Oes Adnoddau ychwanegol i gyflawni'r prosiectau hyn o fewn Gwynedd? Faint o Adnoddau ychwanegol, ac a yw hynny yn ddigonol i wireddu?**

Nid oes adnoddau ychwanegol i gyfarch ystyriaethau cydraddoldeb. Mae cydraddoldeb yn rhywbeth y dylai pob aelod staff ac aelod etholedig ei ystyried wrth weithredu yn eu gwaith dydd i ddydd ac mae yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud hynny. Credwn, drwy roi sylw dyledus i gyfraniad a phrofiad

pobl hefo nodweddion penodol yna byddwn yn darparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon.

3.3 **Mae cydraddoldeb yn faes sydd angen ei ystyried gan bob gwasanaeth. Oes trefniadau mewn lle i godi ymwybyddiaeth swyddogion at y cynllun a'i gynnwys, a dyletswyddau pob swyddog?**

Mae'n fwriad cysylltu gyda staff i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ar y Cynllun trwy Gyfathrebu Mewnol

Mae'r amcanion sydd yn y Cynllun yn rhai sy'n berthnasol i bob Adran a Gwasanaeth. Gan mai'r bwriad ydi i'r adrannau gynnwys gwaith penodol yn eu cynlluniau busnes dylai fod yn rhan o waith pob Gwasanaeth yn naturiol.

Mae hefyd yn fwriad i edrych ar anghenion hyfforddiant yn y maes yma, yn sgil hyfforddiant llwyddiannus (o ran niferoedd ac adborth) ar asesiadau effaith ym misoedd Gorffennaf i Fedi 2015.

3.4 **Yn yr un modd, oes cynlluniau ar y gweill i godi ymwybyddiaeth Aelodau etholedig o'r cynllun a rôl aelodau ym maes cydraddoldeb?**

Bydd gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn cael ei roi i Aelodau trwy gyfrwng Rhaeadr.

Gweler pwynt 3.5 ynglŷn á hyfforddiant.

3.5 **Beth yw'r drefn ar gyfer sicrhau hyfforddiant cydraddoldeb i Aelodau a swyddogion? Faint o Aelodau sydd wedi bod ar yr hyfforddiant cydraddoldeb hyd yma?**

Fel gyda swyddogion, rydym angen adolygu'r ddarpariaeth yn y maes.

Cynhaliwyd hyfforddiant Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb cyn y Nadolig a mynychodd 22 Aelod. Mynychodd wyth Aelod hyfforddiant allanol ar Gydraddoldeb Sipsiwn a Theithwyr a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr un cyfnod.

3.6 **Beth fydd yn wahanol mewn blwyddyn o fod wedi mabwysiadu'r cynllun yma?**

O fewn blwyddyn disgwylir y bydd materion cydraddoldeb wedi eu hymgorffori o fewn cynlluniau busnes yr Adrannau. Disgwylir y bydd cyswllt gyda grwpiau nodwedd penodol wedi cryfhau a byddwn yn gallu bwydo adborth i mewn i asesiadau effaith. Byddwn hefyd gyda gwell gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb y gweithlu ac am unrhyw faterion sy'n rhwystro pobl rhag sefyll fel Cynghorwyr

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Bydd craffu yn ychwanegu gwerth i’r ymgynghoriad.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Parhau gyda’r ymgynghoriad ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a mynd ag adroddiad terfynol i’r Cabinet ar 15 Mawrth 2016.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

6.1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft 2016-20

6.2 Asesiad Effaith Cydraddoldeb o’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Cynllun Strategol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2016-20




www.gwynedd.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth**
Uned Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

E-bost: cynlluniostrategolapherfformiad@gwynedd.gov.uk

Ffôn: 01286 679 708

**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print Bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall, cysylltwch â Delyth Gadlys Williams ar 01286 679 708**

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

# Mynegai

**Cynnwys** **Tudalen**


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Rhagymadrodd | 04 |
| Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb | 05 |
| Sut ydym ni am weithredu? | 06 |
| Asesu Effaith ar Gydraddoldeb | 07 |
| Amcanion Rhanbarthol | 08 |
| Amcanion Cyngor Gwynedd 2016-20<br>a) Gwybodaeth fewnol<br>b) Llais a chyfranogiad<br>c) Data ar nodweddion cydraddoldeb | 09 |
| Gwybodaeth Bellach<br>a) Proffil o Wynedd<br>b) Hyfforddiant a Datblygiad<br>c) Deddfwriaeth<br>ch) Cyhoeddi<br>d) Monitro | 15 |
| Crynodeb | 17 |

# Rhagymadrodd

Mae Cyngor Gwynedd yn falch o gyflwyno drafft o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ar gyfer ymgynghoriad. Os ydych chi eisiau rhoi sylwadau ar y cynllun, mae holiadur syml ar gael ar lein ar www.gwynedd.gov.uk/cydraddoldeb neu mae copïau ar gael yn swyddfeydd y Cyngor, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden. Mae croeso i chwi roi sylwadau drwy gysylltu gyda'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen hefyd. Defnyddiwch yr un manylion cywllt os ydych chi angen y Cynllun mewn iaith neu fformat gwahanol.

Bydd yr ymgynghoriad yn agored tan 1 Mawrth 2016.

# Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

*(Deddf Cydraddoldeb 2010)*

Yr hyn mae Cyngor Gwynedd eisiau ei wneud ydi rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae cael trefniadau addas i sicrhau cydraddoldeb yn holl bwysig wrth wneud hynny. Fydd hi ddim yn bosib rhoi gwasanaeth cyson i bawb fel arall.

Er bod y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol wedi bod yn ei le ers pedair blynedd bellach, rydym ni'n ymwybodol fod lle i wella ar ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wrth galon popeth mae'r Cyngor yn ei wneud.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod y cynllun newydd yma'n cael ei ysgrifennu ar gyfnod anodd pan mae Cyngor Gwynedd yn gorfod gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau. Ar adeg fel hyn rhaid cydnabod y bydd rhai grwpiau o bobl yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill. Mae'n bwysig iawn ein bod yn ymwybodol o hyn ac yn gwneud popeth posib i leihau'r effeithiau yna.

# Sut ydym ni am weithredu?

Rydym yn credu mai'r ffordd orau o hybu cydraddoldeb a lleihau effeithiau'r toriadau ar bobl ag amrywiol nodweddion cydraddoldeb yw gwrando ar eu barn a phrofiad cyn gweithredu. Ein bwriad felly yn ystod y pedair blynedd nesaf yw blaenoriaethu hynny gan gryfhau'r ffordd rydym yn derbyn a defnyddio cyfraniadau pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb penodol. Bydd yn bosib i'r wybodaeth yma ein harwain yn y gwaith yn gyffredinol ond hefyd byddwn yn gofyn am fewnbwn i bolisïau, prosiectau a dulliau o weithio penodol. Credwn felly y byddwn yn gallu adnabod ffyrdd o wneud gwahaniaeth go iawn i bobl gyda'r nodweddion yma.

Rydym wedi pennu amcanion i'n helpu i wneud hynny, yn unol â'n dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd yn adnabod yr hyn allwn ni ei wneud i weithio tuag at yr amcanion hynny. Mae'n bwysig fod y cynllun yn hyblyg i ymateb i'r newidiadau fydd yn digwydd yn ystod y pedair blynedd nesaf. Yn bwysicach, rhaid bod yn barod i ymateb i'r adborth fyddwn ni'n ei dderbyn gan bobl â nodweddion cydraddoldeb arbennig. Dim ond wrth fod yn hyblyg fydd hi'n bosib i ni weithredu'n arloesol a darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon fydd yn diwallu anghenion pobl Gwynedd.

Mae gennym eisoes wasanaethau sy'n gwarchod y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau i sicrhau diogelwch, tegwch ac annibyniaeth unigolion bregus fel plant mewn gofal, pobl hŷn, plant a phobl anabl. Rydym yn gweithio i wella canlyniadau plant a phobl Gwynedd drwy wella safonau addysg, hybu'r economi a gwaith i atal tlodi. Mae gwaith ataliol e.e. gwasanaethau i droseddwyr ifanc, hybu byw'n iach, Strategaeth Heneiddio'n Dda, Strategaeth Trais yn y Cartref, hefyd yn rhan o waith y Cyngor o ddydd i ddydd.

Gan fod gweithdrefnau, prosiectau a strategaethau ar gael yn barod ar y meysydd hyn nid ydym am ymhelaethu arnynt yn y cynllun yma. Mae gwybodaeth ar gael amdanynt eisoes, e.e. yng Nghynllun Strategol y Cyngor. Yn hytrach, ein bwriad yw cryfhau ein ffordd o weithio er mwyn sicrhau fod mewnbwn a dyheadau pobl Gwynedd yn cael ystyriaeth deg wrth weithredu a bod yr effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodweddion cydraddoldeb yn cael ei ystyried. Bydd hyn yn fodd o adnabod unrhyw rwystrau neu fylchau a'n caniatáu i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Hefyd mae'n bwysig nad yw meysydd cydraddoldeb yn cael eu cyfyngu i unrhyw brosiect neu wasanaeth benodol. Yn hytrach dylai dreiddio trwy waith y Cyngor e.e. nid mater i'r Tîm Iechyd Meddwl yn unig yw ystyriaethau iechyd meddwl, ond yn hytrach mater i'r Cyngor i gyd.

Er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio trwy'r Cyngor, fe fydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn adnabod unrhyw faterion cydraddoldeb a'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y gwasanaeth. Disgwylir i'r materion yma gael eu pennu ar sail tystiolaeth, yn arbennig mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i reoli drwy gydol y flwyddyn.

# Asesu Effaith ar Gydraddoldeb

Dull pwysig o sicrhau fod llais pobl â nodweddion cydraddoldeb yn cael ystyriaeth deg yw Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Mae asesu effaith fel hyn yn fodd i sicrhau ein bod yn adnabod unrhyw anghydraddoldeb a gweithio i leihau ei effaith. Mae gofyn eisoes fod asesiad o'r fath yn cael ei wneud ar unrhyw bolisi sy'n mynd at y Cabinet a'r Cyngor ac ar unrhyw newid i arfer sy'n cael effaith ar bobl. Un o hanfodion asesu effaith yw sicrhau mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb.

Wrth edrych ar yr asesiadau effaith sy'n cael eu cwblhau rydym wedi adnabod nad yw'r safon yn gyson ac nad yw'r gwaith o'u datblygu bob tro'n cael ei gyflawni'n addas. Rydym felly yn blaenoriaethu gwella safon ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb fel un o'n hamcanion dros y pedair blynedd nesaf.

# Amcanion Rhanbarthol

Mae'r Cygor yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae'r rhwydwaith wedi adnabod chwe amcan i weithio tuag atynt:

i. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran iechyd
ii. Ymdrin a chanlyniadau anghyfartal o ran addysg er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion
iii. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran gwaith a thâl
iv. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran diogelwch personol
v. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran cynrychioli a llais y bobl
vi. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran cael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.

Fel ag y nodwyd ym mhwynt 3, mae gan y Cyngor strategaethau, gweithdrefnau a phrosiectau sy'n ymateb i'r uchod. Teimlwn mai'r ffordd orau i weithio tuag at yr amcanion yma'n lleol yw cryfhau'r trefniadau gweithio. Bydd hyn yn gwreiddio'r ymwybyddiaeth o anghenion cydraddoldeb yn ddyfnach o fewn gwaith dydd i ddydd y Cyngor gan wella ein hymateb i'r amcanion uchod. Byddwn yn edrych ar sut mae ein gwaith yn plethu mewn i'r amcanion yma yn fwy penodol yn yr adroddiadau blynyddol ar y cynllun.

# Amcanion Cyngor Gwynedd 2016-20

Rydym yn nodi isod y pedwar amcan mae Cyngor Gwynedd am weithio tuag atynt dros y pedair blynedd nesaf. Rydym wedi penderfynu ar yr amcanion yma ar sail amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys:

## a) Gwybodaeth fewnol

Yn anffodus, mae ein cyswllt gyda rhai grwpiau penodol wedi llithro. Mae hyn yn arbennig o amlwg gyda'r Grwp Craidd Anabledd sydd wedi crebachu'n sylweddol mewn aelodaeth. Ein bwriad felly yw edrych o'r newydd ar ein trefniadau, gan greu cyswllt gyda grwpiau penodol a sefydlu Grwp Craidd Cydraddoldeb i gynrychioli pob nodwedd.

Wrth edrych ar yr asesiadau effaith sydd wedi eu cwblhau, rydym yn adnabod fod lle i wella eu cysondeb a'u datblygiad. Rhaid hefyd wella'r ffordd rydym yn defnyddio'r mewnbwn sy'n cael ei dderbyn er mwyn sicrhau fod barn a dyheadau pobl Gwynedd yn cael ystyriaeth deg wrth i ni gynllunio ein gwaith.

Rydym hefyd wedi adnabod fod yr wybodaeth sydd gennym ar nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu angen ei wella. Wrth dderbyn nad oes angen i bobl rannu gwybodaeth gyda ni mae'n bwysig fod yr wybodaeth yma mor gyflawn â phosib er mwyn i ni allu lleihau unrhyw anghydraddoldeb neu rwystr sy'n ymddangos.

Rydym hefyd wedi adnabod yr angen i greu sefyllfa sy'n lleihau unrhyw rwystrau sy'n atal pobl â rhai nodweddion cydraddoldeb rhag ymgeisio am aelodaeth o'r Cyngor.

## b) Llais a chyfranogiad

Rydym wedi derbyn mewnbwn trwy nifer o ffynonellau. Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu rhanbarthol gydag amrywiol fudd-ddeiliaid i drafod ein hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth ar flaenoriaethau pobl drwy ymarferiad casglu barn Her Gwynedd, oedd yn cynnwys cyfarfod gyda grwpiau pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio wrth lunio'r amcanion isod ond hefyd bydd yn cael ei defnyddio wrth gynllunio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae sicrhau mewnbwn y gwahanol garfannau yn un o amcanion y cynllun yma ac felly am chwarae rhan bwysig nid yn unig wrth sefydlu'r amcanion ond yn holl waith y Cyngor dros y pedair blynedd nesaf. Gobeithiwn y bydd pobl Gwynedd yn ein helpu i ganfod ffyrdd arloesol ac addas o weithio.

Rydym wedi penderfynu ar yr amcan yma oherwydd bod pobl Gwynedd wedi dweud wrthym dro ar ôl tro fod hyn yn flaenoriaeth iddynt. Maent wedi dweud eu bod yn teimlo fod penderfyniadau wedi eu gwneud cyn iddynt hwy gael rhoi barn arnynt. Mae'n hynod bwysig fod y Cyngor yn parhau gyda'r gwaith o gynnwys pobl er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn ei waith. Dylid nodi nad ydym o reidrwydd yn golygu ymgynghoriadau ffurfiol yma, er bod gan y rheini rôl i'w chwarae,

ond hefyd bod â gwybodaeth o ddyheadau a barn gwahanol garfannau sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith bob dydd.

Mae swyddogion a rheolwyr o fewn y Cyngor hefyd wedi nodi eu bod wedi canfod ffyrdd o wella gwasanaethau oherwydd mewnbwn gan y cyhoedd, e.e. casglu clytiau babanod yn wythnosol yn sgil newid i gasgliadau sbwriel bob tair wythnos, dulliau amgen o ddarparu gofal.

Rydym hefyd yn awyddus i dderbyn barn ar y cynllun a'r amcanion yma. Os ydych chi eisiau rhoi sylwadau, mae'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen.

## c) Data ar nodweddion cydraddoldeb

Mae'r Cyngor yn casglu data cydraddoldeb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar nodweddion cydraddoldeb er mwyn cael darlun gwell o anghenion. Mae'r wybodaeth yma yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd wedi cyhoeddi "A yw Cymru'n Decach" ym mis Rhagfyr sydd yn edrych ar gyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol ym 2015. Bydd yr wybodaeth yma yn hysbysu ein gwaith hefyd e.e. mae'n nodi "Ychydig iawn o welliant a fu mewn cynrychiolaeth wleidyddol yn y pum mlynedd ddiwethaf, gyda menywod, pobl anabl, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, lleiafrifoedd gwleidyddol a phobl LGBT* yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol ar bob lefel o wleidyddiaeth yng Nghymru".

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth i ni er mwyn penderfynu ar ein hamcanion, mi fydd y data uchod yn ein helpu wrth benderfynu ar waith mwy penodol yn ystod y pedair blynedd sydd i ddod.

(*Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol)

| **Amcan 1** | **Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae gwrando ar bobl yn bwysig er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn addas ar eu cyfer. Mae digonedd o dystiolaeth anecdotaidd i ddangos fod pobl Gwynedd yn teimlo fod hyn yn flaenoriaeth. Rydym yn ymwybodol fod ein cyswllt gyda rhai grwpiau wedi llithro, e.e. dirywiad y Grŵp Craidd Anabledd. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Cryfhau cyswllt y Cyngor gyda grwpiau penodol a sefydlu grŵp craidd cydraddoldeb gan rannu'r wybodaeth a ddaw o'r grŵp drwy'r Cyngor.<br>• Rhannu gwybodaeth o ymarferiadau casglu barn ar fewnrwyd y Cyngor fel ei fod ar gael i bawb.<br>• Cryfhau'r elfen cydraddoldeb yn y Llawlyfr Ymgysylltu ar sail ymarfer da er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu hatgoffa o'r budd sy'n dod o dderbyn barn pobl hefo nodweddion cydraddoldeb, yn ogystal â'r ddyletswydd i wneud hynny. |
| Beth yw'r amserlen? | Parhaol gyda'r gwaith ar sefydlu'r grŵp craidd a'r Llawlyfr Ymgysylltu yn digwydd yn 2016-17 |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Fod trefniadau cyswllt cryf newydd rhwng y Cyngor a grwpiau nodwedd ac unigolion. Fod y grwpiau hynny'n teimlo fod y Cyngor yn gwrando ar eu barn.<br>• Fod gan bob gwasanaeth yr wybodaeth angenrheidiol i gasglu a defnyddio cyfraniad unigolion a grwpiau yn unol â'u dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy sicrhau fod ystod o wybodaeth ar gael ar y fewnrwyd.<br>• Canfod ffyrdd arloesol ac addas o weithio drwy dderbyn barn a mewnbwn arbenigol grwpiau ac unigolion hefo nodweddion cydraddoldeb. |

| **Amcan 2** | **Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Er bod trefniadau asesu effaith wedi eu datblygu fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol rydym wedi adnabod, o edrych ar yr asesiadau sydd wedi dod i law, fod lle i wella eu cysondeb a'u datblygiad. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Pobl Hyn yn pwysleisio pwysigrwydd asesiadau o'r fath. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Rhoi cymorth a hyfforddiant i swyddogion i sicrhau fod ganddynt wybodaeth am eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. Dylai hyn gynnwys sicrhau fod asesiadau effaith yn rhan o ddatblygiad unrhyw bolisi, prosiect neu weithdrefn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.<br><br>• Sicrhau fod y negeseuon sy'n dod o geisio mewnbwn grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhannu drwy'r Cyngor ar gyfer eu cynnwys mewn asesiadau effaith. |
| Beth yw'r amserlen? | Parhaol |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Gweithlu sy'n ymwybodol o'n dyletswydd i ymgysylltu ac asesu effaith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r budd sy'n dod o wneud hynny, fel bod asesu effaith yn dod yn rhan naturiol o weithredu.<br><br>• Gwella parhaus i greu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon drwy adnabod yr effaith ar wahanol garfannau a lleihau unrhyw ganlyniadau annheg. |

| **Amcan 3** | **Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig.** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb wedi adnabod fod angen gwaith pellach yn y maes gan nad oes llawer o welliant wedi bod mewn cynrychiolaeth wleidyddol gan unigolion â nodweddion cydraddoldeb dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Deddf Llywodraeth Leol (2012) hefyd yn rhoi dyletswydd arnom i gynyddu amrywiaeth. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Cynnal arolwg lleol i adnabod yr elfennau sy'n rhwystr i unigolion rhag sefyll etholiad i fod yn gynghorydd lleol<br>• Gweithredu (lle'n bosib) ar ganlyniadau'r uchod i symud rhwystrau<br>• Amrywiol ddulliau i godi ymwybyddiaeth pobl Gwynedd o ddemocratiaeth a'r cyfleon i gynrychioli fel cynghorydd lleol |
| Beth yw'r amserlen | 2016/17 – 2017/18 |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | Cynyddu amrywiaeth yn yr unigolion sy'n sefyll yn etholiadau Mai 2017. |

| **Amcan 4** | **Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae'r awdit tâl diwethaf wedi dangos fod y Cyngor wedi gweithredu i sicrhau fod tâl sylfaenol yn gydradd. Yr hyn sydd angen sylw yw adnabod os oes rhwystrau yn atal unrhyw garfan rhag cael cyfleoedd i ddatblygu o fewn y gwaith.<br><br>Ar hyn o bryd dim ond 46% o staff sydd wedi datgelu gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb. Wrth dderbyn hawliau'r unigolyn i beidio â datgelu, byddai cael gwybodaeth lawnach ei gwneud yn haws i ni adnabod gwahaniaethau. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Bydd cael gwybodaeth lawnach yn gwella dealltwriaeth o bob nodwedd, ond disgwylir iddo effeithio meysydd rhyw ac anabledd yn fwyaf penodol |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Ymgyrch i lenwi bylchau yn y data nodweddion cydraddoldeb<br><br>• Cwblhau awdit tâl<br><br>• Gweithredu ar sail y dystiolaeth o'r awdit tâl ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall |
| Beth yw'r amserlen | • Cychwyn yr ymgyrch i lenwi bylchau ym Mehefin 2016<br><br>• Bydd gweddill y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod bywyd y cynllun |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Cael mwy o wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb aelodau staff er mwyn adnabod os oes rhwystrau<br><br>• Lleihau unrhyw anghydraddoldeb ar sail y dystiolaeth a gasglwyd |

# Gwybodaeth bellach

## a) Proffil o Wynedd

Mae 75 Aelod Lleol yn eistedd ar Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer 122,273 o breswylwyr, gan gynnwys: addysg ac ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau cynllunio, priffyrdd, rheoli gwastraff, gwarchod y cyhoedd, gwasanaethau ieuenctid a datblygu'r economi.




Ers 2011, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu o 0.6% (750 o bobl). Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 0.9% yng Nghymru.

Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint mewn termau daearyddol. Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n werth 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.

Mae 65% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg a hithau hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.

Yn 2015-16, roedd Gwariant Refeniw Crynswth y Cyngor yn £367 miliwn. Ymhlith amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, defnyddiwyd yr arian hwn i addysgu dros 16,000 o ddisgyblion, cynnal 2,888 cilomedr o briffyrdd a 301 cilomedr o arfordir.

Mae 95 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am redeg 12 Canolfan Hamdden o fewn y sir ac 17 o Lyfrgelloedd.

Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr o ran denu twristiaeth. Yn 2014, daeth oddeutu 6.9 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £975 miliwn mewn refeniw.

Mae 67.5% o dir Gwynedd wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

Cafodd ran helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956, un o bump yng Nghymru.

Yn 2015, roedd canolrif incwm cartref yng Ngwynedd (£22,458) yn 8% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru (£24,271) ac 28% yn is na'r ffigwr ar gyfer Prydain (£28,696).

Yn 2015, y pris canolrif ar gyfer tŷ yn cael ei werthu yng Ngwynedd oedd £145,000 sydd yn gynnydd o 9.8% o'i gymharu â 2011.

Amcangyfrifir bydd nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd wedi cynyddu o 12.5% erbyn 2036. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o gynnydd ar gyfer Cymru oll, sef 14.6%.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau drwy ymweld â'r wefan - www.gwynedd.gov.uk

## b) Hyfforddiant a Datblygiad

Darparwyd hyfforddiant i staff ar asesiadau effaith a derbyniwyd ymateb da iawn o ran adborth a niferoedd. Mae gan y Cyngor fodiwl e-ddysgu cydraddoldeb hefyd ar gyfer staff ac aelodau.

Gan ein bod yn adnabod y pwysigrwydd o wreiddio cydraddoldeb yn bob dim ryda ni'n wneud, yn enwedig yn wyneb y cyfnod heriol sydd o'n blaenau, byddwn yn adolygu anghenion hyfforddiant a datblygiad yn fuan.

## c) Deddfwriaeth

Wrth baratoi'r cynllun yma mae'r Cyngor wedi dilyn canllawiau anstatudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n rhoi arweiniad ar sut ddylid ymateb i ddyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010.

Maes gwaith arall dros y pedair blynedd nesaf fydd sicrhau ein bod yn edrych i'r dyfodol a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn creu Gwynedd yr ydym i gyd eisiau byw ynddi (Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fydd yn dod i rym yn Ebrill 2016). Ein bwriad yw plethu'r gwaith yma gyda'r gwaith ar gydraddoldeb.

## ch) Cyhoeddi

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi a'i gylchredeg gan ddefnyddio dulliau amrywiol. Bydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais. Cysylltwch os gwelwch yn dda â'r cyfeiriad ar gychwyn y ddogfen.

## d) Monitro

Wrth wynebu heriau'r pedair blynedd nesaf mae'n hollbwysig ein bod yn monitro cynnydd yn erbyn y pedwar amcan ac yn penderfynu ar ffyrdd gwahanol o weithredu. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn dangos y camau y byddwn fel Cyngor wedi eu cymryd dros y deuddeg mis i weithio tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

# Crynodeb

Mae Cyngor Gwynedd yn falch o gyflwyno drafft o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ar gyfer ymgynghoriad.

Bwriad y cynllun ydi lleihau anghydraddoldeb i bobl hefo nodweddion cydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 sef oedran, ailbennu rhywedd, rhyw, hil, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred), priodas a phartneriaeth sifil.

Mae Cyngor Gwynedd eisiau rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae cael trefniadau addas i sicrhau cydraddoldeb yn holl bwysig wrth wneud hynny. Fydd hi ddim yn bosib rhoi gwasanaeth cyson i bawb fel arall.

Rydym ni'n ymwybodol fod lle i wella'n trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wrth galon popeth mae'r Cyngor yn ei wneud. Rydym yn credu mai'r ffordd orau, ar adeg anodd fel hyn, i sicrhau tegwch ydi gwrando ar y bobl berthnasol cyn gweithredu. Ein bwriad felly yn ystod y pedair blynedd nesaf yw cryfhau'r ffordd rydym yn derbyn a defnyddio barn a sylwadau pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb amrywiol.

Rydym wedi pennu pedwar amcan, wedi eu selio ar dystiolaeth fewnol, barn a data er mwyn gwneud hynny:

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb |
| Amcan 2 | Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb |
| Amcan 3 | Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig |
| Amcan 4 | Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau |

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi a'i gylchredeg gan ddefnyddio dulliau amrywiol. Bydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r cyfeiriad ar gychwyn y ddogfen.

Wrth wynebu heriau'r pedair blynedd nesaf mae'n hollbwysig ein bod yn monitro cynnydd yn erbyn y pedwar amcan. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn dangos y camau y byddwn fel Cyngor wedi eu cymryd dros y deuddeg mis i weithio tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN
# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Delyth G Williams, Swyddog Polisi

## 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

- Pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Grwpiau sy'n cynrychioli pobl á'r nodweddion yma

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

8 Hydref 2015

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

21 Ionawr 2016

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y bwriad yw gwneud hynny drwy bennu amcanion fydd yn sicrhau fod llais pobl hefo'r nodweddion hynny'n cael ystyriaeth deg. Pwysig hefyd yw sicrhau fod cydraddoldeb yn treiddio trwy holl waith y Cyngor.

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda pobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

Rydym wedi derbyn mewnbwn trwy nifer o ffynonellau. Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu rhanbarthol gydag amrywiol fudd-ddeiliaid i drafod ein hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth ar flaenoriaethau pobl drwy ymarferiad casglu barn Her Gwynedd, oedd yn cynnwys cyfarfod gyda grwpiau pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio wrth lunio'r amcanion isod ond hefyd bydd yn cael ei defnyddio wrth lunio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth o ymgysylltiadau blaenorol wedi ei ddefnyddio hefyd.

Y bwriad rŵ an ydi cael cyfnod o ymgysylltu gan hysbysebu'n eang a chysylltu gyda grwpiau penodol. Bydd fformatau amgen yn cael eu darparu yn ôl yr angen.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

Mae ein tystiolaeth wedi dod o amryw o ffynonellau gan gynnwys

- Ymgysylltu – gweler uchod
- Gwybodaeth fewnol y Cyngor
- Data ar nodweddion cydraddoldeb

Rydym yn ymhelaethu ar y data yma yn y Cynllun.

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

Rydym wedi nodi bylchau mewn tystiolaeth yn y Cynllun ac wedi adnabod dulliau o'u cywiro e.e. casglu gwybodaeth ar nodweddion cydraddoldeb y gweithlu.

## 9) PERTHNASEDD AC EFFAITH

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |
| **Meithrin perthnasau da** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr  effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma.<br><br>Byddwn yn darparu dulliau addas i gysylltu hefo pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf |
| **Anabledd** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma.<br><br>Byddwn yn darparu dulliau addas i gysylltu hefo pobl anabl yn ôl yr angen. |
| **Rhyw** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Oedran** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Beichiogrwydd a** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith |

| | | |
|---|---|---|
| **mamolaeth** | | bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br><br>Disgwlyir i'r cynllun a'r amcanion gael effaith bositif o safbwynt cydraddoldeb. |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Monitro ac adolygu, gweler isod. |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nac Oes |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er fod yr asesaid uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gwblhau yn flynyddol i nodi'r gwaith fydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ac i adnabod unrhyw fylchau |

## 12) PENDERFYNU

| |
|---|
| Cyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r cyhoedd. |





# Strategaeth TG (2016-2018)

# Y Weledigaeth

(dogfen #1 mewn cyfres o 2)

FFORDD GWYNEDD



# Cyflwyniad



Mae'r Strategaeth TGCh diweddaraf yn eistedd o fewn cyfnod ansicr iawn ar gyfer llywodraeth leol. Bydd pwysau ariannol cynyddol yn parhau i fod yn ddylanwad mawr ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau ac yn debyg o barhau heibio i oes y strategaeth hon.

Mae holl wasanaethau Cyngor yn dibynnu ar systemau TGCh mewn rhyw ffurf. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn amlwg ac yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac ar achosion bydd yn llai gweledol ac yn chwarae rôl gefnogol y tu ôl i'r llenni. Yr hyn sy'n glir, fodd bynnag, pan fyddo'n cael ei ddefnyddio'n gywir, mae TGCh yn arf critigol ac yn alluogwr pan ddaw i wella gwasanaethau a lleihau costau darparu gwasanaethau. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiant y strategaeth flaenorol ond yn hytrach na rhoi'r dechnoleg fel canolbwynt y strategaeth, mae'n defnyddio egwyddorion a themâu i wneud yn siŵr bod y busnes yn arwain y strategaeth a'r dechnoleg yn cael ei ddarparu i gefnogi hyn. Mae ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r Bwrdd Llywodraethu TG a staff y Gwasanaeth TG tra'n paratoi'r Strategaeth.

**Mae'r Strategaeth TGCh yn ffurfio gofynion TGCh cyffredinol y Cyngor gan gefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o'i nodau strategol:**

- **Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
- **Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal**
- **Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
- **Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio**
- **Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd**




# Llwyddiant y strategaeth flaenorol



O blith y pedwar deg wyth o brosiectau a nodwyd yn y strategaeth flaenorol, mae deugain yn gyflawn, chwech ar waith a dau heb eu dechrau. Mae disgwyl i'r rhai ar waith gael eu cwblhau erbyn diwedd 2014/15 ac mae angen ail asesu'r ddau sydd heb eu dechrau. Yn ogystal, mae prosiectau strategol eraill na chawsant eu hadnabod yn wreiddiol yn y strategaeth flaenorol wedi cael eu cwblhau yn yr un cyfnod. Mae'r llwyddiant hwn nid yn unig yn darparu sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau a phrosiectau TGCh strategol i'r dyfodol, ond mae hefyd yn rhoi llawer iawn o hyder yng ngallu'r Cyngor i ddarparu ei raglen TGCh fel y rhagwelwyd, tra'n cydnabod y pwysau mae hyn yn ei roi ar y gwasanaeth TGCh ei hun. Mae'r hyder hwn yn cael ei gefnogi ymhellach wrth ystyried y nifer fawr o brosiectau gwasanaeth penodol sydd hefyd wedi cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn.

48 tasg wedi eu hadnabod yn y Strategaeth

- 40 wedi eu cwblhau
- 6 ar waith
- 2 heb eu dechrau





# Heriau ac Egwyddorion



Mae amryw her yn ein hwynebu fel Cyngor, gyda pwysau ariannol yn flaenllaw ac yn effeithio pob agwedd o weithgareddau'r Cyngor. Oherwydd hyn, mae effeithlonrwydd, buddsoddiadau fforddiadwy ac uchafu defnydd o asedau cyfredol yn ffactorau bydd yn cael eu cysidro wrth gyflwyno mentrau sy'n gysylltiedig gyda thechnoleg.


**Egwyddor 1 Fe ddylai technoleg a'r adran sy'n ei gefnogi fod yn hyblyg i gwrdd a heriau Ffordd Gwynedd.**

**Egwyddor 2 Fe ddylai'r staff sy'n defnyddio technoleg gael y technoleg cywir i hwyluso eu gwaith a sgiliau priodol i ddefnyddio'r dechnoleg yn effeithiol.**

**Egwyddor 3 Mae unrhyw newid neu adolygiad sy'n cael ei gyflwyno i wasanaeth angen cysidro cynnig sianel ddigidol fel dull o gyflwyno gwasanaeth i'r cyhoedd. Bydd disgwyl i unrhyw system newydd a gyflwynir yn cynnig llwybr ddigidol i wneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.**








**Egwyddor 4** **Bydd yr asedau TG cyfredol yn cael eu hadolygu, rhesymoli a'u hecsbloetio cyn belled a phosib i wneud y defnydd gorau bosib gan osgoi gwastraff.**

**Egwyddor 5** **Dylai patrwm a dyheadau TG sy'n amlygu eu hunain ar draws nifer o wasanaethau gael eu ymdrin fel datrysiad corfforaethol, neu'n draws awdurdod/asiantaeth os yw hynny'n briodol.**

**Egwyddor 6** **Dylai technoleg gwybodaeth fod yn ystwyth a diogel, yn alluogwr i gyflwyno gwasanaethau effeithiol, mewn modd effeithlon. Ni ddylai technoleg, neu ddiffyg technoleg fod yn rwystr.**



# Themâu'r  Strategaeth

Mae’r themâu sydd i ganlyn yn cloriannu sut y byddwn yn delio gyda’r egwyddorion ac yn rhoi blas ar sut bydd y gwasanaeth yn esblygu i gwrdd a heriau’r dyfodol.



1. **Dod a gwasanaethau’n agosach at bobol Gwynedd**
2. **Arwain a chefnogi adrannau a gwasanaethau mewnol y Cyngor gyda’u defnydd o dechnoleg**
3. **Rhyddhau amser staff TG**
4. **Gwneud y gwasanaeth TG yn fwy effeithiol ac effeithlon**




# Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol Gwynedd



Mae sawl ffordd ble gallwn gyflwyno technoleg i ddod a gwasanaethau'r Cyngor yn agosach at ein defnyddwyr. Yn bresennol, dim ond llond llaw o wasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng hunan wasanaeth ac mae disgwyl i bobol Gwynedd gael cyswllt ar-lein i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Nod y strategaeth yw cyflwyno ystod ehangach o wasanaethau drwy'r cyfrwng ddigidol a hwyluso mynediad at y cyfrwng i bobol Gwynedd.

Elfen arall o ddefnyddio technoleg i ddod a gwasanaethau'n agosach i'n defnyddwyr yw drwy arfogi ein gweithwyr yn y maes â thechnoleg pwrpasol i'w gwneud yn fwy effeithlon. Gall hyn amlygu ei hun mewn amryw o wahanol ffyrdd ac mewn amryw wahanol faes gwasanaeth. Mae technoleg cludadwy wedi cynnig ffyrdd gwahanol o weithio gada isadeiledd megis di-wifr a cysylltiadau data symudol ar gael i gefnogi hyn.






## Arwain a Chefnogi



Mae cyflwyno technoleg ar gyfer defnydd effeithiol yn gyfrifoldeb sy'n cael ei rannu drwy'r sefydliad. Byddai'n amhriodol cyflwyno technoleg oni bai ei fod yn cyfoethogi'r gwasanaeth drwy unai wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol neu'n effeithlon. Golyga hyn bod angen parhau i adeiladu pontydd rhwng y busnes a'r gwasanaeth sy'n cyflwyno a chefnogi'r dechnoleg. Fe all weithio ddwy ffordd, y gwasanaeth yn gofyn am dechnoleg i gefnogi eu cynlluniau ar un llaw a'r ochr dechnegol yn cynnig datrysiadau all gefnogi cynlluniau'r adrannau ar y llaw arall.

Mae technoleg a'r gallu i wneud newidiadau pell gyrhaeddol, ond mae angen cefnogaeth ar y defnyddwyr i wneud y defnydd gorau o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno.






## Rhyddhau Amser Staff TG




Erbyn hyn, mae amser helaethaf swyddogion y gwasanaeth TG  yn canolbwyntio ar gefnogi datrysiadau sydd wedi eu cyflwyno'n barod. Golyga hyn nad oes digon o adnodd i gyflwyno datrysiadau pellach heb roi'r gorau i gefnogi rhai gwasanaethau neu drwy ychwanegu at yr adnodd.

Mae angen gwaith ymchwil helaeth mewn disgyblaeth sydd yn newid ar raddfa anferthol, ac oni bai bod yr amser ar gael i ymchwilio mae'n anorfod y bydd datrysiadau sy'n cael eu cyflwyno wedi oesi'n sylwedd-ol cyn eu bod yn weithredol.

Nid dim ond ar gyfer datrysiadau newydd, ond hefyd ar gyfer gwella'r systemau a'r wybodaeth sydd gan y Cyngor yn barod.  Mae systemau'r Cyngor wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd, yn aml heb ei herio. Nid yn unig bod amheuaeth am gywirdeb ein gwybodaeth a'i ddilys-rwydd i gefnogi'r busnes, ond mae hefyd gyfleoedd i gydgrynhoi sys-temau cyfan sy'n arwain at arbedion a gwelliant yn safon y wybod-aeth.







# Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon



Mae gofyn i'r gwasanaeth TG esblygu i gwrdd a disgwyliadau'n cwsmeriaid mewnol ac allanol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth gwydn a safonol. Mae natur y gwasanaeth ar hyn o bryd yn ymatebol a rhan helaethaf amser y swyddogion yn ymateb i ofynion a phroblemau. Er mwyn rhyddhau amser y swyddogion i ganolbwyntio ar ddatblygiadau a heriau newydd mae angen gwella drwy symud i sefyllfa ble rydym yn diwallu problemau cyn iddynt ymddangos, ond yn naturiol, mae angen cefnogi'r gwasanaeth drwy gyfnod ble mae'r Gwasanaeth yn trawsnewid, sy'n cyflwyno ymdrechion ychwanegol.

Mae'r newidiadau'n bell gyrhaeddol ac yn golygu cryn newid yn y diwylliant presennol gan symud o sefyllfa sydd ag elfennau o anrhefn i wasanaeth trefnus sydd a'r gallu i newid cyfeiriad i gwrdd a newidiadau ym musnes y Cyngor ac amgylchiadau heriol sydd o'n blaenau wrth ymdopi a sefyllfa o orfod gwneud mwy gyda llai.





# Strategaeth TG (2016-2018)

# Gwireddu'r weledigaeth

(dogfen #2 mewn cyfres o 2)

FFORDD GWYNEDD



# Cyflwyniad



Mae'r weledigaeth o'r hyn mae'r Strategaeth TG angen ei gyflawni wedi ei gyflwyno yn y cyntaf o ddwy ddogfen sef "Strategaeth TG (2016-2018) Y Weledigaeth", ac fe fydd y ddogfen hon yn ein tywys drwy'r hyn sydd angen ei wneud i wireddu'r weledigaeth.

Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar 4 themâu:

1. **Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol Gwynedd**
2. **Arwain a chefnogi adrannau a gwasanaethau mewnol y Cyngor gyda'u defnydd o dechnoleg**
3. **Rhyddhau amser staff**
4. **Gwneud y gwasanaeth TG yn fwy effeithiol ac effeithlon**

Fe fydd y ddogfen hon yn cyfarch y themâu hyn ac yn adeiladu arnynt gan gyfeirio at weithgareddau penodol y byddwn yn eu dilyn er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

Mae chwech prif egwyddor wedi ei lunio ar gyfer gwireddu'r themau hyn:

**Egwyddor 1** - fe ddylai technoleg a'r adran sy'n ei gefnogi fod yn hyblyg i gwrdd a heriau Ffordd Gwynedd

**Egwyddor 2** - fe ddylai'r dechnoleg cywir gael ei gyflwyno i hwyluso tasgau, gyda sgiliau priodol i ddefnyddio'r dechnoleg yn effeithiol

**Egwyddor 3** - mae angen cysidro defnyddio'r sianel ddigidol ar gyfer unrhyw newid neu gyflwyniad o wasanaeth newydd

**Egwyddor 4** - fe fydd yr asedau TG cyfredol ac unrhyw asedau newydd yn cael eu hadolygu, rhesymoli a'u hecsbloetio i wneud y defnydd gorau bosib gan osgoi gwastraff

**Egwyddor 5** - fel ddylai patrwm a dyheadau TG sy'n amlygu ar draws nifer o wasanaethau gael eu ymdrin fel datrysiad corfforaethol, neu'n draws awdurdod/asiantaethol os yw hynny'n briodol

**Egwyddor 6** - Dylai technoleg gwybodaeth fod yn ystwyth a diogel, yn alluogwr i gyflwyno gwasanaethau effeithiol, mewn modd effeithlon. Ni ddylai technoleg, neu ddiffyg technoleg fod yn rwystr





Mae’r Strategaeth TGCh  yn ffurfio gofynion TGCh cyffredinol y Cyngor gan gefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o’i nodau strategol sydd wedi ei amlygu yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd (2013-17):

(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

(2) Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal

(3) Gwella gweithio’n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy’n cyfri i unigolion

(4) Paratoi’r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio

(5) Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd

(6) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i’r dyfodol

# Thema 1. Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol

**Amcanion cynllun Strategol Gwynedd sy'n cael eu gwireddu:**

**(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
**(2) Gwella ymgysylltu gyda chymunedau ar yr her gofal**
**(3) Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**(4) Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio**
**(5) Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd**
**(6) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol**

## Hunan Wasanaeth—Y Sianel Ddigidol

Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma'n datgan:

- Bod manteision effeithlonrwydd i wasanaethau'r Cyngor drwy gyflwyno'r sianel ddigidol
- Ymchwil yn datgan y bydd isafswm o 22% yn symud i ddefnyddio'r sianel ddigidol , gyda'r ffigwr yn codi pe byddwn yn marchnata'r gwasanaeth yn effeithiol
- Cwmnïau sy'n gwerthu systemau hunan wasanaeth yn defnyddio ffigyrau afreal i geisio gwerthu eu cynnyrch, a hynny ar gost fydd yn anodd i'w adennill. Byddwn yn ymchwilio i'r ddarpariaeth gorau i Wynedd gan ystyried cwmnïau 3ydd parti neu ddarpariaeth mewnol

## Y Sianel Ddigidol yng Ngwynedd

- Pob elfen o hunan wasanaeth yn bodoli yn "Porth Hunan Wasanaeth Gwynedd"
- Y porth a'r cyfrif yn greiddiol i oll o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy'r sianel ddigidol
    - Un cyfrif, un cyfrinair
    - Cyfrif yn ddiogel ac yn defnyddio yr un mecanwaith a www.gov.uk i ddilysu deilydd y cyfrif
    - Newid manylion mewn un lle e.e. cyfeiriad, manylion cyswllt. Y rhain wedyn yn cael eu rhaeadru i'r gwasanaethau unigol.
- Mi fydd y porth wedi ei bersonoleiddio i ddeilydd y cyfrif ac yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol am geisiadau gwasanaeth a datblygiadau pellach o'r dudalen "lle dwi'n byw"



# Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol Gwynedd

## Gweithio yn y Maes

**Isadeiledd**—adolygiad o isadeiledd i gefnogi gweithio yn y maes.

Cynnal adolygiad llawn o'r isadeiledd presennol gan adnabod beth yw anghenion ein gwasanaethau ar gyfer cyflwyno darpariaeth i weithio yn y maes. Bydd yr adolygiad yma yn cynnwys ymarferiad o gategorïo mathau gwahanol o weithio yn y maes e.e. gweithio gyda cleiantau megis gweithwyr cymdeithasol, gweithio gydag adnoddau megis eidd-o'r Cyngor neu weithio y tu allan yn y wlad yn gwneud gwaith am-gylcheddol.

Bydd yr ymarferiad yn ymestyn i ail ddylunio'r isadeiledd i gwrdd ar ddarpariaeth o weithio yn y maes gan adnabod gwahaniaethau rhwng yr hyn sydd ganom eisoes a'r hyn fydd ei angen.



**Datrysiad**—safoni ar ddatrysiad corfforaethol, ond mae'n rhaid iddo fod yn ddigon hyblyg i wyro i ofynion byddai'n benodol ar gyfer sys-temau 3ydd parti.

**Cyfarpar**—adolygiad llawn o'r cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio gan staff y Cyngor heddiw yng nghyd-destun gweithio yn y maes. Yn draddodiadol mae staff wedi derbyn cyfarpar ychwanegol i gyflawni eu dyletswyddau yn y maes, ond mae hyn angen ei adolygu gan edrych i gyflenwi cyfarpar aml-bwrpas sy'n gwasanaethu'r gweithiwr yn y swyddfa ac oddi allan i'r swyddfa.




**Cyswllt**—byddwn yn adolygu ein cytundeb gyda'r darparwr ffonau Symudol bob 3 mlynedd gan fesur y darparwr ar sail pris a chryfder cysylltedd yn y Sir. Fe fydd unrhyw dechnoleg sy'n cefnogi mynediad di-wifr yn cael ei adolygu fel rhan o'r cynllun adnewyddu adnoddau corfforaethol mewn cylch o 7 mlynedd.

**Argaeledd**—mae datblygiadau newydd gyda'r system teleffoni yn y Cyngor yn rhoi cyfleon i ni wella ar argaeledd ein staff yn y maes i dderbyn galwadau a negeseuon gan y rhai sy'n ceisio cysylltu a hwy, boed o'n bobol Gwynedd, asiantaethau allanol neu staff/swyddogion y Cyngor.



# Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol Gwynedd

## Hwyluso Cysylltu Gyda'r Cyngor

**Cyfryngau Cymdeithasol**—galluogi staff y Cyngor i wneud y defnydd gorau o gyfryngau cymdeithasol. Esblygu o rôl sy'n plismona i fod yn rôl sy'n galluogi gan symud rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Er mwyn diogelu'r cyflogwr wrth ostwng y rhwystrau, fe fydd angen mewnbwn gan y Gwasanaeth TG i bolisi cyfryngau cymdeithasol. Bydd adolygiad o'r cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio i hidlo mynediad at wefannau a'r adroddiadau gallwn ei redeg i arddangos mynediad i'r gwefannau hyn.



**Di-wifr**—mae'r gwasanaeth di-wifr "Gwynedd Ddigidol" wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers ei gyflwyno yn 2012, gydag oddeutu 14,000 o gyfrifiaduron unigryw yn gwneud cyswllt i'r rhwydwaith bob mis. Mae disgwyliadau pobol wedi newid hefyd ac mae angen gwarchod ac ehangu'r ddarpariaeth yma. O ran gwarchod, fe ddylid ymgyfarwyddo'r ddarpariaeth i'r cynllun adnewyddu asedau, gan gyflwyno cylch adnewyddu o 7 mlynedd. Fe fydd angen comisiynu ymchwiliad i adnabod yr Adnoddau byddai angen i ymestyn y ddarpariaeth ym mhellach, gan edrych ar ddi-wifr cyhoeddus yn y mannau hynny ble mae'r cyhoedd yn ei fynychu a di-wifr corfforaethol oddi fewn i swyddfeydd y Cyngor.

Gall darpariaeth di-wifr i'r cyhoedd adeiladu ar ein gallu i gynyddu y niferoedd sy'n defnyddio'r cyfrwng ddigidol i gysylltu gyda'r Cyngor. Mae hefyd angen adolygiad o'r ystadegau sy'n cael eu casglu a sut gall y Cyngor wella neu cymryd mantais o'r wybodaeth yma e.e. ymgyrchoedd hysbysebu am wasanaethau'r Cyngor. Fe ddylid ystyried rôl technoleg fel iBeacons er mwyn ehangu'r gallu yma.

**Cyfrifiaduron Cyhoeddus**—mae 105 o gyfrifiaduron wedi eu lleoli yn llyfrgelloedd y Sir at ddiben defnydd y cyhoedd. Nid yw y rhain wedi eu cynnwys yn rhaglen adnewyddon y Sir ar hyn o bryd ac yn cael eu hadnewyddu gyda hen gyfarpar sydd wedi oesi ar gyfer defnydd swyddfa. Mae cyfrifiaduron cyhoeddus yn cael eu defnyddio at aml bwrpas gan gynnwys disgyblion ysgol yn gwneud eu gwaith cartref, a'r di-waith yn chwilio am waith. Mae'n debyg y bydd y galw'n cynyddu wrth i gyfundrefn Diwygio Lles y Llywodraeth gyflymu, lle bydd rhagdybiaeth y bydd ceisiadau am Gredyd Cynhwysol yn cael eu gwneud ar lein.

Gydag ychydig o hyfforddiant i staff y llyfrgelloedd, gallwn fanteisio ar gyfleon i gyfeirio unrhyw ymholiad am wasanaethau'r Cyngor i'r wefan gorfforaethol. Fe ddylid hefyd manteisio ar gyfleon i farchnata'r cyfrwng ar lein ac annog defnyddwyr y gwasanaeth llyfrgell i greu cyfrif hunan wasanaeth.

**Cyfryngau cysylltu**—dylid ymchwilio ym mhellach i gyfryngau cyswllt rhwng y cyhoedd a'r Cyngor. Dau prif gyfrwng sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, cyswllt drwy'r ffôn a chyswllt wyneb yn wyneb. Mae'r cyfrwng hunan wasanaeth drwy'r cyfrifiadur yn bodoli a chynlluniau ar y gweill i gryfhau'r ddarpariaeth yma. Mae cyfryngau eraill ar gael ac sy'n cael eu defnyddio gan ambell i adran yn y Cyngor, ond nid yw'r cyfryngau hyn wedi eu cyd-gysylltu e.e. facebook, twitter, instagram neu neges destun.

**Darpariaeth ffôn**—mae darpariaeth ffôn newydd wedi cael ei gyflwyno yn y Cyngor fel ymarferiad i wneud arbedion effeithlonrwydd. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r dechnoleg newydd gan edrych am ffyrdd gwell o weithio.

# Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol Gwynedd

## Buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwireddu'r penawd

### CYFALAF

£600,000 (Amcangyfrifir y bydd angen clustnodi lleiafswm o £200,000 y flwyddyn am gyfnod o 3 blynedd ond bydd yr union gost yn ddibynnol ar ba fath o system a fabwysiedir ar gyfer dibenion hunan wasanaeth a'r ymdrech fydd ynghlwm a'i sefydlu )

£15,000 (pecyn adrodd ar dueddiadau pori'r we)

£7,500 (ar gyfer dadansoddi sawl man cyswllt di-wifr sydd ei ang)*

*Fe allai'r dadansoddiad arwain at achos busnes am fwy/llai o fannau cyswllt di-wifr. Gall hyn arwain at fuddsoddiad pellach mewn cyfalaf, refeniw ac Adnoddau TG

### ADNODD TG

1.0 FTE Parhaol ar raddfa S3 (£35,000 ar gyfer y sianel ddigidol)

Tud. 54

### REFENIW

£30,000 (Meddalwedd APIs ar gyfer y sianel ddigidol)

£3,000 (pecyn adrodd ar dueddiadau pori'r we)

£27,500 (cefnogaeth ar y meddalwedd/caledwydd di-wifr)

### Gweithgareddau sy'n gysylltiedig a'r buddsoddiad

- Darparu'r sianel ddigidol
- Cryfhau'n gallu i adrodd ar ddefnydd o'r we fel ymateb i agor ei ddefnydd e.e. galluogi mynediad i gyfryngau cymdeithasol
- Adolygu'n darpariaeth di-wifr
- Gweithio yn y maes*

*Fe all y gwaith ymchwil arwain at gostau cyfalaf a refeniw gyda'r symiau'n ddibynnol ar lefel y datrysiad a sut bydd yn cael ei gyflenwi. Bydd achosion busnes yn cael eu paratoi pe byddai angen mynediad at ffynhonnell ariannol

# Thema 2. Arwain a Chefnogi

**Amcanion cynllun Strategol Gwynedd sy'n cael eu gwireddu:**

**(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
**(2) Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**(3) Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio**
**(4) Hybu defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd**
**(5) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol**

**Cefnogaeth TG**—fe fydd adolygiad llawn o'r trefniadau sydd mewn lle ar gyfer diwallu problemau defnyddwyr yn mynd rhagddo, gyda'r trefniadau yn cael eu hadeiladu o safbwynt gwella ac esmwytho'r profiad i'r cwsmer a thorri ar lwyth gwaith y Ddesg Gymorth. Fe fydd hyn yn cynnwys sut byddwn yn rhyngweithio gyda'n cwsmeriaid ac yn gwella eu profiad gan ddatrys eu problemau ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Byddwn hefyd yn edrych i wneud yn well gyda'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu yn ystod cyswllt y cwsmeriaid gyda'r Ddesg Gymorth a hyn ar gyfer adnabod a diwallu problemau'n well.

**Syrjeris**—mae'r Gwasanaeth TG wedi ei leoli'n gyfan gwbl yn y Pencadlys yng Nghaernarfon. Yn draddodiadol fe roedd cefnogaeth weledol i'w gael yn y swyddfeydd ardal, ond mae presenoldeb y gwasanaeth yn y mannau hyn bellach wedi crebachu'n arw. Byddwn yn ail gyflwyno cyfle i staff y swyddfeydd ardal ymweld a swyddogion y gwasanaeth drwy drefn syrjeris, gydag amledd a hyd i'w benderfynu.

**Ystafelloedd Cyfarfod**—fe fydd y gwasanaeth TG yn derbyn cyfrifoldeb am y dechnoleg sy'n cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio oddi fewn yr ystafelloedd. Yn achlysurol, fe fydd angen ymweld a'r ystafelloedd pan fydd problemau'n codi. Byddwn yn cynnal adolygiad o'r holl gyfarpar yn yr ystafelloedd cyfarfod gan gynnwys cyfrifiaduron, offer cyflwyno, offer fideo gynadleddau a cyfarpar Teleffoni.

**Rheolaeth Rhaglen**—ar hyn o bryd mae dau reolwr cyfrif yn gweithio oddi fewn yr uned rheoli rhaglen, a hyn yn adnodd sy'n cydweithio gydag adrannau eraill er mwyn hwyluso'r broses i wireddu datrysiadau TG. Mae un rheolwr cyfrif wedi bod yn ei le ers 2011, gyda'r ail yn ymuno yn 2014. Mae'r adrannau'n gweld gwerth mawr i'r rôl yma, ac mae'r llwyddiant wedi cynyddu'r galw a tydi dau reolwr cyfrif bellach ddim yn ddigon. Gwendid arall yn y rôl yma yw ei fod yn ceisio cyfarch pob elfen o'r ymgysylltu gyda'r cleiant e.e. dadansoddi, rheoli prosiect, ond ddim yn gallu mynd yn ddigon twfn i'w wireddu'n llawn. Er mwyn cryfhau ar y ddarpariaeth i'r adrannau, mae cynnig bod yr uned rheolaeth rhaglen yn cael ei ymestyn i gynnwys rolau ar gyfer dadansoddwyr busnes a rheolwyr prosiect.

Mae angen i'r rôl rheolwr cyfrif esblygu ym mhellach ac i gael cyswllt amlach gyda'r gweithwyr sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yn uniongyrchol, hyn er mwyn dallt eu rolau ac er mwyn addysgu'r gweithwyr am ddatblygiadau technegol gall gyfoethogi'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei wireddu.

Gyda mwy o adnodd, fe allai'r uned rheoli rhaglen ymestyn i gynnwys gwasanaeth i ecsbloetio adnoddau'r adrannau'n well e.e. gwella safon a chywirdeb data, lleihau'r nifer o systemau gan wneud defnydd gwell o'r hyn sydd ganom.

Fe fydd angen i'r rheolwyr cyfrif ddod yn fwy amlwg oddi fewn yr adrannau ac yn gynharach yn y broses o gaffael systemau newydd.





# Arwain a Chefnogi


**Darparu technoleg i gyflawni**—eithriad yw'r angen i gael technoleg arbenigol ar gyfer unigolyn. Yn amlach na pheidio mae'r dechnoleg ei angen ar gyfer cyfarch gofynion y gwaith, nid yn annhebyg i swydd ddisgrifiad neu fanylion y person. i hwyluso'r drefn o ddyrannu offer i staff ac i wneud yn siŵr bod swyddogion y Cyngor yn derbyn y dechnoleg cywir i gyflawni eu dyletswyddau fe ddylid gwneud ymarferiad i ychwanegu categorïau o ddefnydd technoleg i'r system swyddi. Mae sawl mantais i hyn:

- Darparu offer ffit i bwrpas
- Adnabod costau cyflenwi offer yn erbyn swydd
- Tegwch i bawb
- Lleihau ar wastraff ble mae penderfyniad mympwyol yn cael ei wneud
- Hwyluso trefn casglu cyfarpar pan fo swyddog yn gadael ei swydd

**Y Gymraeg**—mae'r Cyngor yn gweithredu polisi iaith lle bo gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i dderbyn neu ddefnyddio eu holl wasanaethau unai yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Mae safonau newydd y Gymraeg yn dod i rym ar Ebrill y 1af, 2016 gyda trefniadau penodol ar gyfer darparu gwasanaeth TG i'r cyhoedd. Fe fydd unrhyw gynnyrch TG sydd a phwrpas at wasanaethu'r cyhoedd yn ymrwymo i'r safonau iaith newydd.

Y Gymraeg yw iaith gweinyddol y Cyngor a'r strategaeth blaenorol yn datgan y byddai meddalwedd mewnol yn cyflenwi gwasanaeth yn y Gymraeg yn unig. Yn achlysurol, mae meddalwedd sydd wedi ei ddatblygu'n fewnol yn cael sylw allanol, a datblygiadau fel "Y Gwe Iaith" wedi cael sylw cenedlaethol. Er mwyn hwyluso rhannu systemau sydd wedi eu datblygu'n fewnol fe fydd oll o systemau'r Cyngor yn cael eu darparu i gefnogi dwyieithrwydd ond yn cael eu cyflwyno 'n fewnol yn y Gymraeg yn unig.

**Hyfforddi**—mae'r Ddesg Gymorth yn delio a llawer o wahanol alwadau, rhai yn adrodd ar broblemau technegol ac eraill yn cysylltu a'r Ddesg Gymorth oherwydd nad yw eu sgiliau technegol yn ddigonol. Mae angen harnesu'r wybodaeth yma i adnabod gwendidau technegol cyffredinol a cydweithio gyda'r uned Dysgu a Datblygu i greu pecynnau hyfforddi i staff y Cyngor.




Mae sôn am syrjeris wedi bod yn barod, sy'n gyfle i roi cefnogaeth anffurfiol i staff. Gallwn wella ar hyn drwy gyflwyno ymarferion gwaith da fel rhan o drefniadau anwytho staff, a newid y drefn o gyflwyno cyfarpar. Ar hyn o bryd mae cyfarpar yn mynd i staff mewn llif parhaus, gyda'r disgwyliad eu bod yn gwybod sut i'w ddefnyddio. Byddai cyflwyno'r cyfarpar i staff ar ffurf gweithdy yn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth TG hyfforddi ar ei ddefnydd ac yn osgoi cyflwyno yr un wybodaeth sawl gwaith.

**Technoleg fel galluogwr i drawsnewid**—Fe fydd y gwasanaeth TG yn profi nifer o wahanol ddyfeisiadau fydd yn galluogi staff i weithio yn lle bynnag a phryd bynnag sy'n gyfleus iddyn nhw. Yn hanesyddol, mae'r adran wedi bod yn cyflenwi cyfarpar ar gyfer gweithio traddodiadol, sef darpariaeth yn y swyddfa, ond mae'r ddelfryd a disgwyliadau staff a rheolwyr yn newid. Mae gwaith yn gyfres o dasgau sy'n cael eu cyflawni yn hytrach na rhywle mae rhywun yn ei fynychu, ac mae angen i'r gwasanaeth TG arfogi'r gweithlu gyda'r cyfarpar pwrpasol i wireddu hyn.

# Arwain a Chefnogi

**Buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwireddu'r penawd**

**CYFALAF**

£45,000 (safonni ar y cyfarpar sydd ar gael yn yr ystafelloedd—cyfanswm o 9 ystafell)

£9,000 (system rheoli ystafelloedd, cynnwys arwyddion digidol)

**ADNODD TG**

2.0 FTE Parhaol ar raddfa S3 (Dadansoddwr Busnes / Rheolwr Prosiect—cyfanswm o £74,000 am y ddwy swydd)

**REFENIW**

£9,720 (cefnogaeth ar sail 18% o'r cost cyfalaf)

**Gweithgareddau sy'n gysylltiedig a'r buddsoddiad**

- Cryfhau darpariaeth ystafelloedd cyfarfod
- Cryfhau'r swyddogaeth rheoli rhaglen

# Thema 3. Rhyddhau Amser Staff

**Amcanion cynllun Strategol Gwynedd sy'n cael eu gwireddu:**

**(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
**(2) Gwella gweithio'n integredig gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion**
**(3) Paratoi'r gweithlu gofal er mwyn cwrdd a'r ffordd newydd o weithio**
**(4) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol**



**Rheoli newid**—i osgoi dryswch gyda rheoli newid corfforaethol, mae hwn yn ymwneud ac ymarfer da o drafod unrhyw newid fydd yn cael ei wneud i systemau cyfrifiadurol y Cyngor. Cwmpas yr ymarferiad yma fydd ceisio lleihau unrhyw aflonyddu ar y gwasanaeth pan yn cyflwyno newid. Mae buddsoddi amser i ymchwilio pe byddai newid yn achosi problem yn talu ar ei ganfed i gymharu a'r amser gallwn ei wastraffu yn ceisio ymateb i gywiro sefyllfa pan fo newid wedi mynd o chwith. Nid gwastraffu amser y tîm technegol yw'r byrdwn mwyaf pan fod newid yn mynd o chwith, ond ei sgîl effaith ar ein defnyddwyr a'r amser cynhyrchiol byddai'n cael ei golli oherwydd diffygion dianghenraid.

Byddwn yn edrych i ymgorffori trefn o reoli newid fel rhan o ddarpariaeth y system ddesg gymorth, sydd hefyd yn cael ei adolygu i'r pwrpas o wneud yn well gyda'r hyn sydd ganom. Mae'n hanfodol bod y drefn yn un bragmataidd, sy'n cael ei gyflwyno gyda'r bwriad o arbed amser ac yn cefnogi'n ymdrechion yn hytrach na ychwanegu atynt.

**Dogfennu a chofnodi gwybodaeth**—nifer cyfyngedig o swyddogion technegol sydd gan y gwasanaeth TG, a golyga hyn, mewn sawl achlysur, bod arbenigedd ar ambell system yn gyfyngedig i unigolyn. Yn ddelfrydol byddwn yn cael mwy nag un swyddog yn arbenigwr ar y systemau, ond tydi ddim yn ymarferol gan y byddai'n ychwanegu'n sylweddol i'r gweithlu. Fodd bynnag fe allwn wella ar ein trefn o ddogfennu systemau a chadw cronfa wybodaeth am ein systemau.

**Adolygu a rhesymoli gweithgareddau'r ddesg gymorth**—y ddesg gymorth yw'r adwy i rhan fwyaf o staff y Cyngor at y gwasanaeth TG. Mae oddeutu 20,000 o ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi gyda'r ddesg gymorth, ond tua dwbl hyn o gofnodion o gyswllt gyda'r ddesg gymorth, gyda nifer cynyddol o staff y Cyngor yn methu gwneud cyswllt ar yr ymdrech gyntaf oherwydd bod swyddogion y ddesg gymorth yn prosesu galwadau eraill. Tydi hyn ddim yn gynaliadwy, ac mae cefnogaeth wedi ei dderbyn gan y Cyngor i ychwanegu adnoddau i'r uned yma, gyda'r bwriad o gynyddu y nifer o alwadau sy'n cael eu diwallu ar y pwynt cyswllt cyntaf o 63% i 85%.





Ymgais arall sydd angen ei wella yw i ddod a'r nifer o broblemau sy'n cael eu cofnodi yn is, ond mae'n debyg taw cynyddu bydd y rhain ar y cychwyn gan bod nifer sylweddol o broblemau'n cael eu diwallu heb eu cofnodi ar hyn o bryd, hyn oherwydd diffyg amser. Mae'n hanfodol ein bod yn cofnodi popeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ble mae ein problemau'n bodoli, a dim ond drwy adnabod hyn y gallwn ddadansoddi a rhoi mesurau i gryfhau y mannau hynny o'r gwasanaeth sy'n arddangos canran uchel o broblemau.

# Rhyddhau Amser Staff

Fe fydd uned y ddesg gymorth yn cael ei wella drwy:

- Adolygu ein defnydd o'r system ffôn
- Symleiddio'r broses o gofnodi galwadau
- Cyflwyno elfennau o hunan wasanaeth i swyddogion y Cyngor fonitro cynnydd ar eu galwadau
- Cryfhau ein presenoldeb ar y fewnrwyd mewn ymgais i swyddogion y cyngor helpu eu hunain drwy wneud defnydd o gronfa wybodaeth gynhwysfawr

**Ymchwil**—mae technoleg yn newid ar cryn dipyn o gyflymder ac mae angen neilltuo amser i ymchwilio i dueddiadau a datblygiadau er mwyn cyflwyno'r gwasanaeth gorau. Mae disgwyliadau swyddogion y Cyngor yn newid hefyd a'u defnydd o dechnoleg personol yn cynyddu ac yn mynd yn fwy soffistigedig, ond yn wahanol i'r defnydd o offer personol ar gyfer dibenion pleser, mae cryn gyfyngiadau arnom o ran diogelwch. Y sialens yw cyflwyno technoleg gwydn, arloesol, ffit i bwrpas, effeithlon, effeithiol a diogel. Mae angen buddsoddi amser ar gyfer profi'r technoleg newydd a'i addasrwydd ar gyfer maes gwaith y Cyngor.




Tud. 59

Mae gweithlu'r Cyngor yn ymestyn i oddeutu 6,500 aelod o staff, gyda 2,350 o'r rhain yn ddefnyddwyr cyfrifiaduron traddodiadol, a'r ddarpariaeth yma'n gritigol i'r swyddogion hynny gwblhau eu tasgau. Yn y gorffennol, mae ymdrechion y gwasanaeth TG wedi ei ganoli ar y defnyddwyr traddodiadol hyn, ond efallai bod cyfleon nad ydym wedi ymchwilio ble gall ddarpariaeth technegol fod yn gymorth i 'r staff a'r swyddi ble nad ydym yn paratoi darpariaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys ymledu i ddefnydd y cyhoedd.

- *Gwasanaethau casglu gwastraff*—gall technoleg systemau gwybodaeth daearyddol gael eu defnyddio i wneud llwybrau casglu'n fwy effeithiol e.e. Cyngor Dosbarth East Northamptonshire yn arbed £200,000 y flwyddyn drwy ddefnyddio'r dechnoleg yma

- Cynnal a chadw priffyrdd—mae cwmni ceir Jaguar Land Rover yn arbrofi gyda technoleg sy'n cofnodi tyllau yn y ffordd a chwmni technoleg Google wedi derbyn patent ar gyfer technoleg tebyg. Gall technoleg o'r math yma gael ei ddefnyddio i ddarganfod diffygion cyn eu bod yn datblygu i fod yn broblemau costus

- Cartrefi cysylltiedig—mae technoleg megis teleofal yn cael ei ddefnyddio ers peth amser ar gyfer diogelu pobl hyn a'r bregus yn eu cartrefi. Mae'r IoT (*Internet of Things*) yn ymestyn ar hyn ac yn galluogi i dechnoleg ymddwyn yn llawer mwy deallus a'i bosibiliadau yn bell gyrhaeddol. Drwy ymchwilio fe allwn fanteisio ar y datblygiadau hyn er mwyn gwella ansawdd bywyd ein trigolion a cyflwyno gwasanaethau gofal yn rhatach.

# Rhyddhau Amser Staff

**Buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwireddu'r penawd**

| | |
|---|---|
| **CYFALAF**<br><br>Dibynnu ar ddarganfyddiadau ymchwil | **ADNODD TG**<br><br>Dibynnu ar ddarganfyddiadau ymchwil |
| **REFENIW**<br><br>Dibynnu ar ddarganfyddiadau ymchwil | **Gweithgareddau sy'n gysylltiedig a'r buddsoddiad**<br><br>• Canfyddiadau gweithgareddau ymchwil |

# Thema 4. Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon

**Amcanion cynllun Strategol Gwynedd sy'n cael eu gwireddu:**

**(1) Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**
**(2) Sicrhau cyllideb gytbwys gynaliadwy i'r dyfodol**

**Rhaglenni gwaith**—yn hanesyddol, mae cryn wahaniaeth wedi bod yn y ffordd mae'r uned ddatblygu ac unedau isadeiledd yn rheoli eu rhaglen waith, gyda'r uned ddatblygu yn cynhyrchu a monitro rhaglen gynhwysfawr a'r timau isadeiledd yn trin pob darn o waith fel gwaith ymatebol. Un o'r rhesymau dros hyn yw diffyg amser yn y tîm isadeiledd, ond gyda'r buddsoddiad diweddar a wnaethpwyd i gryfhau'r unedau hyn, mae amser yn gallu cael ei ryddhau yng ngwaith dyddiol yr arweinwyr tîm ac arweinwyr technegol i greu a monitro rhaglenni gwaith. Golyga hyn y byddwn yn gallu cyfathrebu'n gliriach a mwy hyderus i'n cleiantau ar gynnydd, a rheoli disgwyliadau am unrhyw lithriadau.



Mantais arall rhaglen waith gynhwysfawr yw'r gallu i gasglu gwybodaeth hanesyddol gall ein helpu i gynhyrchu rhaglenni gwaith cywirach i'r dyfodol ac adnabod tueddiadau ar gyfer llithro. Mae'r uned ddatblygu yn cofnodi amser y datblygwyr, gan gofnodi prun a'i gwaith datblygu neu gynnal a chadw sy'n cael ei wneud. Mae'r ystadegyn yma'n hanfodol er mwyn darganfod faint o adnodd sydd ar gael ar gyfer unrhyw waith datblygol newydd ac felly'n golygu bod y rhaglenni gwaith yn cyd-redeg gyda'n disgwyliadau gwreiddiol. Tydi hyn ddim yn wir ar gyfer yr unedau isadeiledd ac mae bron yn amhosib cael rhaglen waith i redeg yn erbyn yr amcanion gwreiddiol. Fe fydd yr unedau hyn yn dilyn ymarfer da yr unedau datblygu ac yn cofnodi eu ymdrechion i adnabod faint o waith datblygol/cynnal a chadw sy'n cael ei wneud.

Mae rhaglenni gwaith clir yn rhoi darlun o'r llwyth gwaith sydd yn nhimau'r gwasanaeth ac yn hwyluso'r broses o flaenoriaethu.

**Rhagweithiol v Ymatebol**—mae natur presennol y gwasanaeth TG yn gymysgedd o ymarferion rhagweithiol, ble mae ymdrechion y gwasanaeth yn cael ei reoli gyda rhaglenni gwaith, a'r eraill yn ymarferion ymatebol ble nad oes posib rhagdybio hyd a lled eu heffaith ar adnoddau'r gwasanaeth.

Mae gwaith ymatebol yn dod atom o ddau wahanol gyfeiriad, gwaith sydd angen ei wneud ar frys oherwydd bod nam neu broblem a gwaith ble mae gofyn ychwanegol wedi dod i wasanaeth y Cyngor ac mae angen creu datrysiad ar fyrder. Yn bresennol, er mwyn cyflawni'r gwaith ymatebol, rydym yn ail flaenoriaethu'r gwaith rhagweithiol gan atal rhai digwyddiadau'n llwyr, ac er ein bod yn diwallu'r broblem/cais ymatebol, rydym yn esgeuluso ar ddyletswyddau cynnal a chadw, sy'n gallu creu problem i'r dyfodol.

Y bwriad yw ceisio osgoi cymaint ac y gallwn o'r gwaith ymatebol gwastraffus, ble rydym yn cywiro nam neu broblem, gan ryddhau mwy o amser i'r gwaith ymatebol datblygol. Rhagwelir y gellir gwneud hyn drwy fuddsoddi mwy o amser yn y rhaglen waith rhagweithiol er mwyn tawelu problemau cyn eu bod yn digwydd gan ryddhau mwy o amser na'r buddsoddiad a wneir. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer rhyddhau amser staff i weithio ar becynnau gwaith sy'n gwella'r Cyngor ac i ymateb i geisiadau a ddaw o weithgareddau fel ymyraethau Ffordd Gwynedd.

# Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon



**Y Cwmwl**—bob yn hyn a hyn mae'r diwydiant technoleg yn sefydlu gweithgaredd neu drefn sydd a disgwyl i sefydliadau eu dilyn. Mae'r "cwmwl" yn ddisgrifiad o drefn ble mae llai o ddibyniaeth ar galedwedd ac ystafelloedd pwrpasol i gynnal offer ble mae gwasanaethau'n cael eu lletya. Mae gan Gyngor Gwynedd ddau ganolfan ddata, y brif un yn y Pencadlys yng Nghaernarfon ac un wrth gefn yn lleoliad Galw Gwynedd ym Mhenrhyndeudraeth. Mae oll o systemau'r Cyngor a'n gwybodaeth yn cael eu lleoli yn y mannau hyn.

Bellach, mae'n amhosib diystyru'r "cwmwl" ar gyfer lleoli systemau ac/neu wybodaeth y Cyngor, ond mae'n rhaid gwerthuso hyn yn nhermau costau, ymarferoldeb a diogelwch. Yn ystod tair blynedd y strategaeth hon, byddwn wedi creu strategaeth cwmwl y Cyngor gan roi cyfeiriad at ddarpariaeth y dyfodol.

# Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon

**Buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwireddu'r penawd**

| **CYFALAF** | **ADNODD TG** |
| --- | --- |
| Dim | Dim |
| **REFENIW** | |
| Dim | **Dim gweithgaredd yn arwain at fuddsoddiad ychwanegol** |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol Gwynedd

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Sianel Ddigidol | | | | | £600,000 | £65,000 |
| | Ymchwil a sefydlu'r system fydd yn sail i'r datrysiad | | | | | |
| | Darparu sianel ddigidol i 18 gwasanaeth | | | | | |
| | Darparu sianel ddigidol i 14 gwasanaeth | | | | | |
| | Darparu sianel ddigidol i 6 gwasanaeth | | | | | |
| Gweithio yn y maes | | | | | Yr adrannau i ariannu unrhyw ddarpar-iaeth o weithio yn y maes | |
| | Adolygiad o'r isadeiledd cefnogi | | | | | |
| | Adolygu cytundeb ffonau symudol | | | | | |
| | Darparu ymarfer da ar gyfer defnydd o offer teleffoni yn y swyddfa/yn y maes | | | | | |
| | Adolygu gwahanol ddarpar-iaethau a chyfarpar i weithio yn y maes | | | | | |
| | Darparu datrysiad corffor-aethol | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Dod a gwasanaethau'n agosach at bobol Gwynedd (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hwyluso cysylltu gyda'r Cyngor | | | | | £22,500 (gall fod yn sylweddol fwy os yw'r di-wifr yn cael ei ymestyn) | £30,500 (efallai byddai angen ychwanegu at adnodd TG os yn ymestyn y rhwydwaith di-wifr yn sylweddol) |
| | Sefydlu trefn ddiogel ble mae defnydd o'r we a chyfryngau cymdeithasol yn cael ei ryddhau o rwystrau mynediad | | | | | |
| | Darparu arolwg i ledaenu mynediad at rwydwaith di-wifr yn swyddfeydd y Cyngor | | | | | |
| | Adolygu a rhesymoli defnydd o gyfrifiaduron i'r cyhoedd yn ein llyfrgelloedd | | | | | |
| | Paratoi adroddiad ar sut y gallwn wneud defnydd gwell o'r system ffôn newydd a gwella profiad cysylltu gyda'r Cyngor i'r dinesydd | | | | | |
| | Ymchwilio a darparu ffyrdd amgen i'r dinesydd gysylltu a'r Cyngor | | | | | |

Tud. 65

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain a Chefnogi



| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth TG | | | | | DIM | |
| | Adolygiad o drefniadau cefn-ogi'r Ddesg Gymorth | | | | | |
| | Cryfhau presenoldeb y gwas-anaeth TG ar y mewnrwyd er mwyn gwella argaeledd ein cefnogaeth | | | | | |
| | Defnyddio'r system ffôn newydd i wella'r gwasanaeth i'r defnyddwyr | | | | | |
| Syrjeris | | | | | DIM | |
| | Sefydlu syrjeris i swyddogion yn swyddfeydd ardal gael mynediad gweledol at y gwasanaeth TG | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain a Chefnogi (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystafelloedd Cyfarfod | | | | | £54,000 | £9,720 |
| | Adolygu addasrwydd ystafelloedd cyfarfod y Cyngor | ↔ | | | | |
| | Dylunio unrhyw newidiadau i gyfarpar ac/neu defnydd yr ystafelloedd | ↔ | | | | |
| | Cyflwyno'r ddarpariaeth newydd | ↔ | | | | |
| | Ail ddylunio'r gwasanaeth neilltuo ystafelloedd cyfarfod | ↔ | | | | |
| Rheolaeth Rhaglen | | | | | DIM | £74,000 |
| | Sefydlu a hyfforddi rheolwr rhaglen a dadansoddwr busnes | | ↔ | | | |
| | Cynllunio trefn gwaith newydd ar gyfer rhedeg prosiectau'r gwasanaeth TG | | ↔ | ↔ | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain a Chefnogi (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Technoleg fel galluogwr i drawsnewid a chyflawni | | | | | DIM | |
| | Adolygu tueddiadau gwaith a'r dechnoleg sydd ar gael i gyfarch hyn | | ⟷ | ⟷ | | |
| | Addasu'r system swyddi Gwynedd i gynnwys manylion am y dechnoleg sydd ei angen i gyflawni dyletswydd- | | ⟷ | | | |
| | Creu trefn ar gyfer casglu asedau staff pan yn gadael eu swydd | | ⟷ | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Arwain a Chefnogi (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddi | | | | | DIM | |
| | Creu rhaglen anwytho staff newydd | | | | | |
| | Sefydlu gweithgor hyfforddi staff ar y cyd gyda'r gwasanaeth dysgu a datblygu | | | | | |
| | Adolygu'r drefn o gyflwyno cyfarpar/meddalwedd newydd i staff | | | | | |
| Y Gymraeg | | | | | DIM | |
| | Sefydlu safonau datblygu dwyieithog | | | | | |
| | Datblygiadau systemau mewnol newydd i ddilyn y safonau datblygu newydd | | | | | |
| | Datblygu safonau defnydd o'r Gymraeg ar gyfer dogfennaeth tendr | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Rhyddhau Amser Staff

Tud. 70

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli newid | | | | | DIM | |
| | Sefydlu gweithdrefn rheoli newid | | | | | |
| | Hyfforddi staff i ddefnyddio'r weithdrefn newydd ac adolygu ei chwmpas | | | | | |
| Dogfennu a cofnodi gwybodaeth | | | | | DIM | |
| | Creu cyfres o dempledi technegol ar gyfer cofnodi gwybodaeth am systemau | | | | | |
| | Adolygu defnydd o system y ddesg gymorth i gofnodi manylion am namau'n well | | | | | |
| Ymchwil | | | | | DIM (ond fe all ymchwil arwain at ofyn am gefnogaeth i sefydlu prosiect i ddatblygu'r ymchwil ym mhellach | |
| | Rhyddhau amser i bob aelod o staff gael y cyfle i ymchwilio i dechnoleg newydd | | | | | |
| | Adolygu prosiectau ymchwil a'u darganfyddiadau'n chwarterol | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Rhyddhau Amser Staff (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adolygu gweithgaredd-au'r ddesg gymorth | | | | | DIM | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

Tud. 71

# Camau ymdrech y strategaeth

## Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon



| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni gwaith | | | | | DIM | |
| | Oll o staff yr adran yn cof-nodi prun ai amser prosiect, cynnal a chadw, ymchwil neu gweinyddol sy'n cael eu wneud | | | | | |
| | Cynhyrchu templedi ar gyfer cofnodi ac adrodd ar raglen-ni gwaith | | | | | |
| | Uned rheoli rhaglen i gyfarf-od gyda'r unedau isadeiledd a datblygu yn wythnosol i adrodd ar gynnydd y rhalen-ni gwaith | | | | | |
| Y Cwmwl | | | | | DIM | |
| | Sefydlu strategaeth ar ddef-nydd Cyngor Gwynedd o'r "Cwmwl" | | | | | |

# Camau ymdrech y strategaeth

## Gwasanaeth TG Effeithiol ac Effeithlon (parhad)

| Gweithgaredd | Cam | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfalaf | Refeniw (cynnwys adnodd TG) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagweithiol v Ymatebol | | | | | DIM | |
| | Cynhyrchu rhaglen rhag-weithiol a cyhoeddi dyddiau cynnal a chadw cyffredinol | ⟷ | ⟷ | ⟷ | | |